

ECO'R WYDDFA

Rhif 269

GORFFENNAF 2000

Pris 40c

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol

ECO'R WYDDFA

yn Festri Capel y Rhos, Llanrug
nos Fawrth, Gorffennaf 11
am 7.30 o'r gloch.

Taer erfynir am eich cefnogaeth.

Nid Defaid William Morgan ...

Mae rhywbeth bach yn poeni pawb yn ôl yr hen gân, ac nid defaid William Morgan yw achos y trafferthion yn ardal Llanberis a Nantperis. Ond defaid serch hynny, ac y mae rhywun yn cael ei demtio i enwi'r perchnogion, yn union fel yn yr hen gân...

Aeth defaid crwydrol Llanbêr yn fwy na niwsans achlysurol erbyn hyn, ac y mae llawer o'r pentrefwyr yn medru adrodd hanesion am achlysuron ble bu bron i'r defaid ag achosi damweiniau ar y ffyrdd. Mae cymaint o ddefaid yn crwydro o amgylch y pentref ar rai adegau fel y gallai bugail teithiol gael ei gyflogi'n llawn amser i'w hebrwng yn ôl ac ymlaen o'u porfeydd breision ar ymylon y ffyrdd. Maent i'w gweld yn ddiadelloedd o ddefaid ac wŷn yng nghyffiniau'r Glyn, gydag ymweliadau ysbeidiol am brydau mwy blasus o flodau a llysiau i erddi'r pentref rŵan ac yn y man.

Mae'r Heddlu wedi cysylltu â phob perchennog yn yr ardal ers dechrau'r flwyddyn yn eu hannog i gadw trefn ar y defaid. Anfonwyd copi o'r llythyr hwnnw i ddau undeb y ffermwyr ac i'r Cyngor Cymuned lleol. Byrdwn y neges oedd fod yn well gan yr awdurdodau gymell y ffermwyr i gadw'r anifeiliaid mewn trefn yn hytrach na defnyddio grym y gyfraith i'w herlyn. Nid yw'r ymddangos fod ewylllys da wedi llwyddo.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd bu'r Cyngor Cymuned yn ceisio cymorth gan Gyngor Gwynedd tuag at y gost o adeiladu grid anifeiliaid ar Ffordd Clegir. Ni fu'r cais yn llwyddiannus, er fod y Cyngor a mudiadau eraill yn fodlon cyfrannu'n sylweddol at y gost. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Cymuned yn disgwyl ymateb i ail gais a wnaethpwyd i gronfa Cist Gwynedd, ac yn cysidro cynyddu eu cyfraniad tuag at y gost o adeiladu grid anifeiliaid. Ond mae'r Cyngor hefyd wedi ysgrifennu at yr Heddlu yn eu cymell yn gryf i ddefnyddio eu pwerau i erlyn y ffermwyr hynny sy'n parhau i fethu cadw trefn ar eu defaid.

Gall pawb ddygymod ag ambell ddafad farus sy'n mynnu torri'n rhydd o bryd i'w gilydd,

ond mae'r sefyllfa bellach yn ddifrifol, a rhagwelir y bydd damwain ddifrifol yn digwydd dros gyfnod yr haf gyda'r cynnydd yn y drafnidiaeth oherwydd ymwelwyr.

Ac nid testun cân ysgafn fydd hi wedyn.

Gair i gall, ffermwyr y fro...

Gwersi Cymraeg yn Ffynnu

Eisoës mae Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg yn cynnig gwaith llawn amser i dros 40 o bobl leol, dros 92% ohonynt yn siarad Cymraeg. Yn awr maent yn cynnig **Gwersi Cymraeg AM DDIM** i'w holl berchnogion catrefi gwyliau.

Ac mae'r gwersi Cymraeg ar foreau Sul yn llwyddiant ysgubol. Ers eu dechrau gan Catrin Whiteside Thomas, merch leol gyda phrofiad o weithio i'r Bwrdd Iaith a

Chyngor Sir y Fflint, derbyniwyd mwy o geisiadau nag sydd o le ar gael yn y dosbarth.

Meddai James McAllister, Rheolwr Cyffredinol Brynteg, 'Ein nod bob amser ym Mrynteg yw gwella pob dim ond yr olygfa. Rwy'n falch, felly, o fedru cynnig y gwasnaeth newydd hwn i'n perchnogion. Credaf y dylem roi amlygrwydd i'r Gymraeg, lle bynnag y bo modd, ac mae'r gwersi Cymraeg hyn yn gam tuag

Parhad ar dudalen 16

Cantorion Cyfoes



'Agwedd' — o adran bentref Bethel — enillwyr ar y Gân Gyfoes dan 12 yn Eisteddfod yr Urdd.

ECO'R WYDDFA

**Rhif 269
GORFFENNAF 2000**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
(871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

AWST 23

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

MEDI 2

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
AWST				
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones 870292
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans 872407
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans 872034
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James 677438

Cyfarfod Cyhoeddus UCAC Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch 2000

Bob blwyddyn mae UCAC yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol i drafod pynciau addysg y dydd. Eleni, cynhelir y cyfarfod ym Mhabell y Cymdeithasau ar ddydd Mawrth, 8 Awst rhwng 11.00am a 12.30pm. Testun y cyfarfod fydd: *Dysgu Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg*.

Mae hwn yn bwnc pwysig ac amserol iawn — yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin ble cynhelir yr Eisteddfod eleni.

Bydd y siaradwyr yn cynnwys Heini Gruffudd a Meirion Prys Jones, a gobeithir cael cynrychiolydd o'r mudiad 'Parents for Choice' yno hefyd.

Beth bynnag eich barn, cofiwch fod yno — dylai'r trafodaethau fod yn frwd ac yn fywiog.

Diolch i chi oll am eich cydweithrediad.

Yn ddiifuant

Edwyn Williams
Ysgrifennydd Cyffredinol

Annwyl Ddarllenwydd,
Daeth yr amser i drefnu 'Am y Gorau' unwaith eto — y gyfres ar S4C sy'n rhoi cyfle i ddwy ardal, bro, tref neu bentref gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cystadlaethau amrywiol. Mae enillwyr y gyfres yn ennill cyfanswm o £10,000 tuag at achos da neu weithgaredd yn eu hardal.

Mae'r rhaglen yn cynnig croesdoriad o gystadlaethau sy'n rhoi cyfle i ystod eang o'r gymdeithas leol i ddangos eu doniau — crefftau, dawnio, canu, chwaraeon, tasgau byrfyfyr a llawer mwy.

Bu'r gyfres gyntaf yn hynod boblogaidd gyda'r rhaglenni yn yr ugain uchaf yn gyson.

GWERSI PIANO

OEDOLION/PLANT

CYSYLLTWCH Â
MAIR HUMPHREYS AR:
(01286) 674339

Beth am i'ch ardal chi roi cynnig arni yn y gyfres nesaf?

A fydddech cystal â chysylltu â ni yn y cyfeiriad isod erbyn Awst 1 fan bellaf os oes diddordeb yn eich ardal?

Teledu Opus
21 Heol Merthyr
Eglwys Newydd
CAERDYDD CF14 1DA
Yn gywir iawn
Ceri Wyn Richards
Cynhyrchydd

COFIWCH

**Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar Fedi 2**

Rhaid i bob
newyddion gyrraedd
y golygyddion erbyn
Awst 23

Carnifal Llanberis

**7 - 15 Gorffennaf 2000
Gweithgareddau'r Wythnos**

Nos Wener, 7 Gorffennaf

Noson Coroni'r Frenhines yng Ngwesty'r Dolbadarn am 6.30

Nos Lun, 9 Gorffennaf

Gyrfa Chwist yn Y Ganolfan am 7.30
Cystadleuaeth Pwl yng Ngwesty'r Dolbadarn am 8.00

Nos Fawrth, 10 Gorffennaf

Mabolgampau ar gae Ddôl y Goeden am 6.00
Cystadleuaeth Cwis yng Ngwesty'r Tywysog Cymru am 9.00

Nos Fercher, 11 Gorffennaf

Disgo'r Plant yn Y Ganolfan am 6.30
Cystadleuaeth Dartiau: Clwb Cymdeithasol Llanberis am 8.00

Nos Iau, 12 Gorffennaf

Pêl-droed a Phêl-rwyd ar gae Ddôl y Goeden am 6.30

Nos Wener, 13 Gorffennaf

Bingo yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis am 7.30

Dydd Sadwrn, 14 Gorffennaf

Ras Pram yn cychwyn o Fanc y Midland am 11.30

ac yna'r
CARNIFAL

Yr orymdaith yn cychwyn o Westy'r Tywysog Cymru am 1.00
Agorir y Carnifal yn swyddogol gan Annette Bryn Parri

Cystadleuaeth Gwisg Ffansi
Seindorf Llanberis / Seindorf Deiniolen / Hen Gerbydau
Arddangosfa Gymnasteg / Arwerthiant Cist Car
Arddangosfa Jygllo / Dawnsyrwyr Morus
Band Wmffra, Rochdale / Rhostio Mochyn
Bwyellwyr Gwynedd / Ceffylau Neidio / Sioe Gŵn
Karate / Reid Balwn / Go-Kart / Dyn Chwythu Tân
Ffair Fach a llawer mwy

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Gwneud Gyrfa o Yrfaoedd



Nerys Bourne.

Dydy Nerys Bourne ddim yn berson milltir sgwâr, nag ychwaith yn un am ddilyn trywydd gyrfa yn ddi-wyro o ran hynny. Mae'n esiamp dda o'r hyblygrwydd sydd ei angen ar bobl ifanc heddiw wrth feddwl am swyddi a'u dyfodol. Mae angen i bawb ennill sgiliau drwy gydol eu hoes heb ddisgwyl gallu pwyso ar gymwysterau o'r gorffennol yn unig.

Mae Nerys yn byw bellach yn Llanrug, ond fe'i magwyd yn Llanfairpwll, Ynys Môn, tan ei harddegau cynnar, cyn symud i thad. Astudiodd at ei harholiadau TGAU yng Nglan Tâf, ond dychwelodd i Ynys Môn i wneud ei lefel 'A' yn Ysgol David Hughes. Hyd hynny, roedd wedi bod â diddordeb mewn sawl gyrfa, gan gynnwys yr heddlu a'r cyfryngau. Penderfynodd ymestyn ei sgiliau drwy ddilyn Cwrs Ysgrifenyddol Uwch ym Mangor, gan ddefnyddio'i gallu gweinyddol am gyfnod mewn gwahanol swyddi, a magu teulu yr un pryd. Meddai Nerys 'Roedd sgiliau gweinyddol yn ddefnyddiol iawn yn y cyfnod yma gan eu bod mor hyblyg.'

Wedi dychwelyd i'r gogledd, treuliodd 3 blynedd yn gwneud gradd mewn Busnes a Gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg. 'Roedd hwn yn gwrs eang iawn o ran maes diddordeb ac fe ddysgais sgiliau sydd wedi bod yn gaffaeliad mawr imi mewn llawer o ffyrdd ers hynny.'

Drwy wneud gwaith rhan

amser i GISDA, yr elusen sy'n cynnig llety i bobl ifanc digartref yn ardaloedd Arfon, darganfyddodd Nerys ei bod yn mwynhau gweithio gydag ieuenctid. Cafodd swydd fel Cyngorydd Gyrfa gyda'r Cwmni Gyrfa yn y gogledd — swydd sy'n cyfuno delio gyda'r ifanc a'u rhieni, cyflogwyr a phobol fusnes yr ardal, a staff ysgolion. Yn ôl Nerys 'Mae'n swydd sy'n cynnig digon o amrywiaeth — cyfweld pobl ifanc ac oedolion, llunio cynllun gyrfa iddyn nhw fydd yn ganllaw ar gyfer y dyfodol, rhoi gwybod iddyn nhw am swyddi a hyfforddiant. Dylech fod â diddordeb mewn masnach a diwydiant, er mwyn gallu rhoi cyngor realistig. O ran sgiliau, mae'n hanfodol bod yn drefnus gan fod yna gryn dipyn o waith gweinyddu, ac rydych chi'n gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. Mae bod yn gyfathrebwr da yn hanfodol, ar lefel ungiol ac wrth annerch cyfarfodydd. Mae'n rhaid gallu gwrando heb fod yn feirniadol, a bod â chydymdeimlad hefo pobl ifanc a'u problemau.'

Wrth gwrs, mae'r gallu i weithio'n ddwyieithog yn gaffaeliad mawr, gan fod y gwaith yn galw am gysylltiad cyson gydag amrywiaeth o unigolion a chwmnïau.

Mae yna brinder o ddynion yn mynd i'r maes. Yn ôl Ffiona Williams, Rheolwr Rhanbarth gyda'r Cwmni Gyrfa — 'Daw cyngorwyr gyrfa o lawer o gefndiroedd gwahanol — y rhan fwyaf wedi graddio, ond rhai gyda phrofiad mewn meysydd tebyg. Mae yna gyfle i gael eich hyfforddi gan y Cwmni drwy ddilyn cwrs NVQ neu ddiploma tra'n gweithio yn y maes. Yr anhawster mwyaf wrth recriwtio ar hyn o bryd ydy denu dynion i'r gwaith yma. Mae llai nag 20% o staff y Cwmni yn ddynion. Yn naturiol, mae sgiliau cyfathrebu dwyieithog yn gwbl allweddol i sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol yn yr ardal yma, ac mae yna alw mawr am gynghorwyr gyrfa dwyieithog drwy Gymru.'

Does yna ddim prinder cyfle i arbenigo mewn agweddau gwahanol o'r gwaith, fel gwaith datblygu deunyddiau, neu gynghori oedolion. Gallwch ddringo'r ysgol o fewn y Cwmni fel mae Nerys wedi ei wneud drwy gael ei dyrchafu i swydd Cyd-gysylltydd Rhanbarth y mis diwethaf. Bydd ganddi fwy o gyfrifoldeb am anghenion staff a bydd yn cydgordio'r gwaith sy'n digwydd yn y gwahanol swyddfeydd. Er hynny, bydd yn dal i dreulio'r rhan fwyaf o'i

hamser ar waith cynghori yn yr ysgolion a'r colegau lleol.

Teimlad Nerys ydi ei bod wedi dod o hyd i waith sy'n gwneud defnydd o'i chryfderau a'r sgiliau mae hi wedi eu meithrin yn ystod ei gyrfa, o fewn Cwmni sy'n rhoi hyfforddiant ichi tra'n gweithio. Mae hi'n cyflawni ei photensial, a gweld eraill yn gwneud yr un peth ydy ei nod yn ei gwaith o ddydd i ddydd.

Rhiannon Gomer
Menter a Busnes
Mehefin 2000

Baneri i Ddathlu Gŵyl Canol Haf Caernarfon

Mawr oedd prysurdeb chwe disgybl o Flwyddyn 12 yn creu baneri mawr i ddathlu'r Wyl fawreddog yma.

Bu Sian Green, Jennifer Jones, Sam Yates, Sarah Jones, Thomas Owen a Guto Humphries yn meddwl am gynlluniau addas i ddehongli Canol Haf a'r Mileniwm Newydd yng Nghaernarfon.

Dewisodd y myfyrwyr ddarlunio golygfeydd symbolaidd o'r castell, y mynyddoedd, yr haul, hwylio a'r rheilffordd ac roedd yn brofiad iddynt weithio ar raddfa mor fawr.

Bydd y baneri yn cael eu harddangos ar y 'promenade' ac ar furiau'r castell ar benwythnos Mehefin 24 a 25.

Cyn Ddisgyblion Ysgol Brynrefail

Mae Keith Roberts yn hanu yn wreiddiol o Lanrug ond, yn 1968, symudodd ei deulu allan i Awstralia. Mae nawr yn chwilio am hen ffrindiau a chyn ddisgyblion a oedd yn Ysgol Brynrefail. Roedd yn dair-ar-ddeg oed ac yn nosbarth 2C pan adawodd yr ardal.

Os oes yna rywun â gwybodaeth, neu am gysylltu ag ef, gellir gwneud hynny un ai ar y wê i'r cyfeiriad canlynol:

roberts@pnc.com.au
neu cysylltwch â Gerallt Jones ar
(01286) 672309.

YN EISIAU Llun o ardal Dinorwig cyn cau'r chwarel

Pris i'w drafod
Cysylltwch â Gwilym
(01248) 353463

SIOE GERDD DATHLU CANMLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL

BABI BACH Y WERN

Geiriau - EIRUG WYN
Cerddoriaeth -EUROS RHYS

NEUADD YSGOL BRYNREFAIL

10fed a 11eg

GORFFENNAF 2000

am 7.30 yr hwyr

Mynediad trwy docyn i'w gael o'r ysgol

Oedolion £4.00 plant £2.00

Cronfa Goffa R.H. Owen

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes, Tan y Clogwyn
Llanberis, Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn AWST 31, 2000.
Ni ystyrrir unrhyw gais a ddaw ar ôl y dyddiad cau penodedig.

CHWILOTA

Hen Draethawd yn Dod i'r Amlwg



Soniais rai rhifynnau yn ôl i mi dderbyn copi o draethawd ar hanes yr Achos yng Nghapel Tan y Coed. Sgwn i sawl traethawd o'r fath sydd wedi eu sgwennu dros y blynyddoedd, ac i ble'r aethant? Ysgrifennwyd y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer cystadlaethau cyfarfodydd llenyddol neu eisteddfodau lleol, a'u beirniadu fel arfer gan weinidogion neu ysgolfeistri ardaloedd cyfagos; a rhai ohonynt, mae'n siŵr, heb fod yn ddigon hyddysg i benderfynu a oedd y ffeithiau a'r hanesion a ysgrifennwyd yn y traethodau yn gywir a'i peidio!

Mae'r copi a ddaeth i'm meddiant wedi ei ysgrifennu gan Gwilym ap Gwilym (dyna'r ffugenw sydd wrth y traethawd) ar gyfer Eisteddfod y Plant, Y Groglith 1922, a gynhaliwyd yng nghapel Tan y Coed. Mae dwy dudalen gyntaf y traethawd yn rhestru'r cynnwys yn bur fanwl, a hwnnw wedi ei rannu'n dair rhan: Cyfnod y Capel yn Llofft y Siop, Cyfnod yr Ysgoldy a Chyfnod y Capel. Mae pob rhan wedi ei ddosbarthu'n benawdau llai, gyda manylion am swyddogion, cymeriadau lleol, clirio dyledion ac yn y blaen.

Mae'r traethawd yn cychwyn drwy feirniadu'r Parch William Hopley am beidio ysgrifennu llawnach hanes o'r achos yn Nhan y Coed yn ei gyfrol ar Fethodistiaeth Arfon, er yn cydnabod mai ieuanc iawn oedd yr eglwys yn y cyfnod pan ysgrifennwyd y llyfr hwnnw. Dywed yr awdur: 'Nid yw rhoddi enwau a phreswylfeydd y rhai hynny a gymerodd ran flaenllaw yng nghychwyniad yr achos yn ddigon o anrhydedd i rai a weithiodd mor wrol a diwyd... dan anfanteision... teilynga y cewri hyn eangach cofnodion o'u gweithredoedd.' Dyna a wna Gwilym ap Gwilym yn ei draethawd, sef rhoi mwy o wybodaeth am rai o'r cymeriadau hyn a fu mor flaenllaw ym mywyd crefyddol ardal Tan y Coed.

Ceir yn y traethawd gyffyrddiadau digrif hefyd. Roedd yr Ysgol Sul gyntaf yn cael ei chynnal yn llofft siop Tan

y Coed; ystafell a fesurai chwe llath wrth bum llath, gyda tho isel yn y cefn 'ble lleolid dosbarth y plant bach'. Ar y cychwyn honnir fod cyfartaledd aelodaeth yr Ysgol Sul yn 70. Meddyliwch am gymaint o bobl mewn ystafell mor fychan! Cynhelid gweithgareddau yn y llofft ganol yr wythnos hefyd, ac un o'r rheini oedd Côr Plant y Llofft. Aeth sôn am y côr yn bell ac agos oherwydd ei aml fuddugoliaeth ar feysydd cystadleuol. Ac meddai'r awdur: 'Gwell oedd lonaid ystafell fechan o rai wedi eu llenwi ag ysbryd y gân na llonaid neuadd eang o blant heb eu hyfforddi i wybod y gwahaniaeth rhwng cân a sôn.'

Ychydig flynyddoedd fu'r achos yn y llofft, a buan y prynwyd tir am £250 i adeiladu ysgoldy. Mantais fawr yr ysgoldy newydd yn ôl yr awdur oedd y ffaith y gallai 'y talaf o wyr y gymdogaeth ymsythu ynddo heb ofni taro ei ben yn y to.' Ar amser sefydlu'r achos yn yr ysgoldy newydd, ymunodd 31 o aelodau o'r Ceunant ac 17 o Lanrug, i roi cyfanswm o bron i hanner cant o aelodau i'r eglwys newydd. Ac erbyn 1898 roeddent yn cynllunio i adeiladu capel gyd-ochr â'r ysgoldy. Ac felly, bu 1898 yn 'flwyddyn o bwyllgorau' i drefnu'r holl waith ynglŷn â'r adeiladu. Roedd yr adeilad newydd yn cael ei agor bedair blynedd yn ddiweddarach.

Roedd y gost i gyd yn £1300, a threfnwyd amryw o weithgareddau i glirio'r ddyled. Yn eu plith roedd 'cyfarfodydd te

a nosweithiau adloniadol'. Ond rhoir sylw arbernig i un achlysur, sef 'nodachfa' — math o arwerthiant — a gynhaliwyd yn Ysgol Bryneryr, gyda'r Fonesig Assheton Smith yn ei hagog yn swyddogol. Roedd chwech o stondinau yn y nodachfa — 'stalls' y gelwir hwy, a'r cyfan wedi eu henwi yn Saesneg: 'drapery, fancy goods, glass and china, refreshments, fruit and plants,' a 'sweets.' Yn bresennol hefyd roedd 'Ap Harri, y tasleisydd adnabyddus, wedi ei logi i gadw'r ymwelwyr mewn tymer dda, ac ysbryd i brynu.' Pwy tybed oedd Ap Harri? A thybed a oes gan rywrai o deuluoedd ardal Tan y Coed gopi o'r rhaglen ar gyfer nodachfa fawr Ysgol Bryneryr?

Mae llawer o weddill y traethawd yn naturiol yn ymwneud â disgrifiadau o ddiagoniaid, cyfeilyddion, arweinwyr y gân, trysoryddion ac ysgrifenyddion y capel, ynghyd â rhestru ymweliadau'r Cyfarfod Misol â'r lle.

Diddorol fyddai cael gwybod am draethodau tebyg am wahanol sefydliadau ym mro'r 'Eco'.

Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail

Mae eitemau ar gyfer yr arddangosfa yn ystod y diwrnod agored yn parhau i gael eu casglu. Derbyniwyd nifer o luniau, rhai yn dyddio o'r dauddegau, a gydag enwau pawb yn y llun yn gyflawn hefyd. Eitemau eraill o ddiddordeb yw

rhaglen gêm hoci 1929, rhaglen gwasanaeth diolchgarwch ar achlysur symud o Frynrefail i Lanrug, a chywaith ar fywyd fferm gan ddisgyblion iau yr ysgol o 1965.

Ond mae angen mwy. Unwaith eto, apeliwn am lyfrau nodiadau neu werslyfrau o'r gwahanol gyfnodau, adroddiadau a gwisg ysgol. Mae diognedd o luniau ar gael, wrth reswm, ond braid yn brin yw eitemau eraill. Beth am yr holl gadeiriau a enillwyd ym mhob eisteddfod am y deugain mlynedd diwethaf? Beth ddigwyddodd i'r 'beirdd a llenorion' o fri? A aeth rhai ohonynt ymlaen i ennill gwobrau llenyddol mwy sylweddol wedi gadael yr ysgol? Eisoes cafwyd addewid am fenthyg y gadair gyntaf erioed i gael ei hennill yn eisteddfod yr ysgol, ond byddai'n ddiddorol gael gwybodaeth am y lleill hefyd.

A beth am enillwyr yn y campau athletig? Sawl enillydd y Victor Ludorum neu'r Victrix Ludorum a aeth ymlaen i wneud enwau iddynt eu hunain mewn meysydd athletig yn ddiweddarach? Mae rhestr faith o'r disgyblion a fu'n cynrychioli eu gwlad neu a ddaeth yn bencampwyr Cymru mewn gwahanol gampau, a chrysau a chapiau rhai ohonynt eisoes ar gadw yn yr ysgol. Ond mae'n sicr fod degau o rai eraill hefyd.

Cofiwch gysylltu â mi, Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515 neu ag Ysgol Brynrefail yn uniongyrchol.



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU

BETHEL (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y saith mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

**'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol
ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau
dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD
COFIWCH AM EIN

BeliBistro

Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

Un funud fach . . . TEIP-S

Be ŵyr Jeremy Clarkson am geir beth bynnag? 'Un o'r ceir gwaethaf a wnaed erioed', oedd ei farn y noson o'r blaen ar yr hen Morris Marina. Mae gan bawb ei deimlad, a loes fawr oedd clywed sylwadau mor ddifriol am gar y bûm i'n berchennog arno ryw ugain mlynedd yn ôl! Roedd y Marina 'hyd yn oed yn waeth na'r Allegro' yn ôl Clarkson, ac roedd hynny yn ddweud go fawr. Ond beth bynnag oedd ffaeiddau'r ceir hyn, doedd dim posib eu camgymryd am unrhyw gar arall. Doedd dim car tebyg i'r Allegro na'r Marina na'r Mini na'r Beetle. Yr oedd i'r hen geir eu cymeriad a'u siâp eu hunain.

Ond nid felly mae hi heddiw, gyda cheir pob cwmni mor debyg i'w gilydd. Tynnwch y bathodyn a'r enw oddi amynt ac mae'n anodd ar y naw dweud y gwahaniaeth rhwng Mazda a Honda a Rover a Volvo. Mae hynny'n galluogi'r cwmnïau i gynnal clinigau ceir, lle caiff gohebwy'r moduro gyfle i brofi ceir newydd heb iddynt wybod pa gwmni sy'n gyfrifol am y ceir hynny. Mae'r ymateb yn ddiudedd ac yn ddiragfarn.

Ond hefo'r Teip-S nid oedd modd celu'r ffaith mai Jaguar oedd y car newydd. Roedd ei siâp mor debyg i fodolau blaenorol, yn cynnwys yr un y teithiai Inspector Morse ynddo o amgylch strydoedd Rhydychen. Does dim posib camgymryd y Jaguar newydd am unrhyw gar arall. Jaguar yw Jaguar.

Felly y dylai hi fod ym mywyd y Cristion hefyd. Mi ddylai fod yn amlwg i bawb pwy yr ydym yn credu ynddo. Wrth edrych arnom ddylai pobl eraill ddim cael trafferth i weld mai pobl Iesu Grist ydym. Dylai'n cariad at yr Iesu fod yn amlwg. Lle bynnag yr ydym, a beth bynnag a wnawn, mae'n parch at Dduw i fod yn hysbys i bawb sy'n ein cyfarfod. Dylai'n ffydd yn Iesu fod yn amlwg bob dydd ac ym mhob sefyllfa.

Mwya'r piti, mae pobl yn aml yn cael trafferth i weld y gwahaniaeth rhwng y Cristion a'r anghredadun am nad ydym yn mynnu glynu wrth yr Iesu a'i ddilyn fel y'n gelwir i wneud.

JOHN PRITCHARD

DRAENOG

Mae'n amlwg bod trefnydd ras nid anenwog yn cofio cyngor y rhedwr a'r diddanwr Jimmy Saville, 'Clunk, Click, bob trip'. Aeth ar y ceir bangio yn y ffair yn Steddfod yr Urdd a gwisgo'r gwregys diogelwch. Ond ar ddiwedd y reid fedra fo ddim dod yn rhydd. Roedd o'n sownd yn y gwregys a bu rhaid i ddynion y ffair ddod i'w ryddhau ar ôl i bawb arall

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Plant Ysgol Sul Capel Coch yn Nhŷ Mawr, Wybrnant.

CYMANFA'R PLANT A'R IEUENCTID. Cynhelir Cymanfa'r Plant a'r Ieuenctid i ddathlu'r Mileniwm yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda fore Sul, Gorffennaf 2 am 10.30 y bore dan arweiniad y Parch Huw John Huws a Manon Llwyd.

Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis am 9.15; Penisarwaun am 9.30 a Deiniolen am 10.00.

Pris: Oedolion £1, Plant 50c.

Croeso cynnes i chwi ymuno.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, Mehefin 6 cynhaliwyd y Cyfarfod Misol o Undeb y Mamau yn Festri Eglwys Sant Padarn. Mrs Betty Humphreys gymerodd y gwasanaeth agoriadol.

Y gŵr gwadd oedd Mr Rol Williams o Waunfawr a siaradodd am sefydlu Marks and Spencers gan Michael Marks a Tom Spencer.

Yn dilyn cafwyd ychydig amser i drin a thrafod materion busnes gan ystyried trefniadau Swper Diolchgarwch y cylch. Mrs Clara Roberts a Mrs Kathleen Williams oedd yn ymorol am y baned a diolchodd Mrs Nan Owen iddynt ac i Mr Rol Williams gyda Miss Glenys Parry yn eilio.

Adroddwyd y Gras i derfynu. CAPEL COCH. Casglwyd y swm o £105.00 at waith y Genhadaeth eleni ac anfonwyd i Sasiwn y Chwirydd yn y Drenewydd ym mis Mai.

CYMEITHAS YR EGLWYS. Trwy garedigrwyd y Llywydd, Mrs Anne Parry-Jones, cynhaliwyd y cyfarfod misol yn ei chartref, Perthi, Llanrug, lle cafwyd croeso cynnes a lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan y Swyddogion ac eraill. Yn ystod y noson cafwyd cystadleuaeth frwd yn addurno hetiau a rhoddwyd dipyn o benbleth i'r beirniad dawnus, ond yn y diwedd dyfarnwyd mai het Evelyn Williams oedd ar y brig, ac ymdrech Elizabeth Roberts yn ail

adael y cylch. Mae'n rhaid bod cen ar ei lygaid wedi ei atal rhag gweld yr arwydd oedd yn nodi mai ar gyfer plant bach yn unig yr oedd y gwregys.

agos, a'r gweddill yn gyfartal drydydd. Diolchwyd i Anne am y croeso i'w chartref ac i'r rhai fu yn cynorthwyo gyda'r lluniaeth, gan y Parch Gwynfor Williams ac i bawb am bresenoli eu hunain i wneud y noson mor ddifyr.

Y mis nesaf y gyrchfan fydd i Laeth y Llan, Llanefydd am ein gwibdaith flynyddol.

PLAS PENGWAITH. Bydd y canlynol yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Gorffennaf: Mrs E. Parry; Mrs C. Hughes; Mrs K. Jones; Mr J.H. Williams a Mr D. Whitaker. Dymunwn ben-blwydd hapus iddynt oll.

Ddiwedd mis Mai cafwyd Sêl Cist Car yn y Cartref. Roedd yn brynhawn reit lewyrchus i'r Cartref gan godi swm o dros £400 i Gronfa Mwynderau'r Preswylwyr. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.

Enillydd £20 y tîm pêl-droed oedd Mrs Lola Owen (871457).

Ras y Wyddfa

Bydd rhedwyr mynydd yn heidio i Lanberis unwaith eto ddydd Sadwrn, Gorffennaf 22 ar gyfer Ras y Wyddfa. Dyma'r bumed ras ar hugain ac i ddathlu'r garreg filltir yn hanes y ras mae gwobr arbennig wedi ei chynnig i bwy bynnag all gwblhau'r cwrs mewn llai nag awr. Nid oes neb wedi llwyddo i wella ar amseriad Kenny Stuart yn ras 1985 (1 awr, 2 funud a 29 eiliad), ond mae Mr Kevin Leech, perchennog Rheilffordd y Wyddfa, sy'n noddi'r ras eleni, wedi addo £25,000 i bwy bynnag all chwalu'r record bresennol a gorffen y ras mewn llai nag awr. Bydd Kenny Stuart ei hun yno eleni yn Gychwynnwr Swyddogol y Ras.

Os digwydd i chi fethu cyrraedd Llanberis ar gyfer y Ras bydd modd clywed sylwebaeth ar y radio gan y bydd Radio Cymru yn darlledu'n fyw o'r Ras. Caiff y dorf a'r gwrandawyr glywed sut hwyl a gaiff un o gyflwynwyr yr orsaf, Dafydd Du, sy'n un o'r rhedwyr eleni.

Er gwaetha'r tywydd, cafwyd trip ar Reilffordd Bach Llyn Padarn ar Mehefin 9. Aeth llond y bws a hoffem ddiolch i Mrs O. Lambrecht am y tocynnau.

Nos Fercher, Mehefin 14 cawsom ein diddanu gan Gôr Meibion Dwyfor. Diolch iddynt am ddod. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

O.B.E. i Judy



Judy Long Wong

Mae gwraig o Lanberis wedi ei chynnwys yn rhestr ddiweddaraf y bobl sydd i dderbyn anrhydedd yr O.B.E. Mae Judy Ling Wong yn byw yn Llainwen Uchaf ers rhyw bum mlynedd. Hi yw Cyfarwyddwraig y Black Environment Network (BEN), mudiad sy'n hybu gweithgaredd amgylcheddol ymhlith yr amrywiol gymunedau ethnig ym Mhrydain. Daeth BEN i fodolaeth wedi i Judy ac eraill sylweddoli nad oedd y mudiadau amgylcheddol yn llwyddo i dynnu aelodau'r cymunedau ethnig i'w gweithgareddau. Pan sicrhawyd nawdd ariannol i waith BEN cafodd Judy ei phenodi yn gyfarwyddwraig y mudiad, ac yn ei gwaith mae'n teithio ledled Prydain yn darlithio ac yn hybu'r diddordeb mewn materion amgylcheddol o fewn yr amrywiol gymunedau ethnig. Un enghraifft o'r gwaith a wneir gan BEN yw'r 'gerddi diwylliannol' sy'n cael eu plannu mewn llefydd fel ysgolion a pharciau ledled Prydain. Y syniad yw bod pobl yn plannu ynddynt blanhigion sy'n tyfu yn y gwledydd y daethant hwy neu eu teuluoedd yn wreiddiol ohonynt.

Cafodd Judy ei geni a'i magu yn Hong Kong. Aeth i'r ysgol yn Awstralia, a dod i fyw i Lundain ryw ugain mlynedd yn ôl. Mae'n artist dawnus, ac yn 1977 hi oedd y wraig gyntaf yn China i gael ei gwneud yn 'Feistr' yn y Tair Celfyddyd, caligraffi, peintio a cherffio.

Mae ei chymar, Pete Frost, sy'n wreiddiol o Northampton, yn Swyddog Polisi gyda'r Cyngor Cefn Gwlad yn ei bencadlys ym Mangor. Mae ef yn siaradwr Cymraeg rhugl erbyn hyn.

Llongyfarchiadau i Judy a hwyl fawr iddi pan fydd yn derbyn y fedal yn Llundain yn ystod yr haf.

O SIAMBAR SELWYN

Y penwythnos yma bydd cannoedd o Eisteddfodwyr yn ymgynnull yn hen dref Dinbych ar achlysur cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 2001.

Mae gen i gof plentyn am yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yno yn 1939. Ar y dydd Iau y bŵm i yno, er mwyn cael gweld y Cadeirio. Er mai plentyn ysgol oeddwn i, dwi'n cofio'r siom am na chafwyd yr un bardd yn deilwng i'w gadeirio. Yn wir, doedd 'na neb yn deilwng o'r Goron yno chwaith. Dyma'r unig Eisteddfod Genedlaethol i'r Gadair a'r Goron gael eu hatal yr un flwyddyn.

Yng nghystadleuaeth y Goron roedd y tri beimiad yn uchel eu canmoliaeth i bryddest un yn dwyn y ffugenw *Pererin* ond y tri yn cydnabod na fu iddo ganu ar y testun gosodedig 'Terfysgoedd Daear'.

Cerdd yw hon am hunanladdiad, ac fel y dywedodd un o'r beirniaid, J. Lloyd Jones, 'Heb unrhyw amheuaeth, dyma fardd mawr y gystadleuaeth. Y mae *Pererin* yn fardd gwyd, a'i gerdd yn gampwaith artistig. Ond, ac ni bu "ond" mwy alaethus a thristach i feirniad erioed — ni ellir dweud iddo ganu ar y testun.' Pwy oedd *Pererin*? Wel, neb llai nag un a oedd eisoes wedi gwisgo tair Coron Genedlaethol — Caradog Prichard. Ac os cafodd rhywun gam mewn unrhyw Eisteddfod erioed, wel Caradog Prichard oedd hwnnw, yn enwedig — fel y goleuwyd ni yn ddiweddarach — fod cryn dipyn o brofiad personol y bardd yn y gerdd fawr hon.

Fe wobrwyyd rhai Cymry enwog yn Eisteddfod 1939.

Soned: T.E. Nicholas; Baled: R. Bryn Williams, a oedd yn byw yn Llanberis ar y pryd, ac a fu'n Archdderwydd yn ddiweddarach Yn Eisteddfod Dinbych 1939 y daeth John Gwilym Jones, Y Groeslon i sylw'r genedl gyda'r nofel *Y Dewis* gan gipio'r Fedal Ryddiaith Bur. Fe enillodd hefyd ar y ddrama hir *Diofal yw Dim* o dan feirniadaeth W.J. Gruffydd a Saunders Lewis.

Ydi, mae cloddio drwy hen Gyfansoddiadau'r Brifwyl bob amser yn ddiddorol, a phob tro y bydda i yn mynd ar fy nheithiau mi fydda i'n pacio dwy nau dair o'r hen gyfrolau hyn yn y cês.

Diddorol ydi troi tudalennau Cyfansoddiadau union hanner can mlynedd yn ôl. Ble roedd y Steddfod yn 1950? Wel, yng Nghaerffili. Yno y daeth yr enw Gwilym R. Tilsley i'r amlwg, gan mai fo enillodd y Gadair am ei *Awdl Foliant i'r Glöwr*. Pan oedd Tilsley yn byw yng Nghaernarfon arferwn dreulio oriau yn ei gwmni ac fe ddywedodd wrtha i ei fod o wedi cynnig am y Goron yng Nghaerffili hefyd. Y testun oedd 'Y Gaethglyd', 'Ifor Bach' neu 'Difodiant'. Llefelys oedd ffugenw Tilsley, ac fe ganodd bryddest i drigolion y Sŵ yn Llundain. Bardd enwog arall a gafodd y Goron, yn wir ei ail Goron Genedlaethol, sef Euros Bowen. T. Llew Jones yn ennill ar yr englyn *Ceillog y Gwynt* dan feirniaeth Gwenallt, allan o 347 o gystadleuwyr.

Ceillog y Gwynt
Hen wylwr fry mewn helynt —
yn tin-droi

Tan drawiad y corwynt;
Ar heol fawr y torwynt
Wele sgwâr bolis y gwynt.

Enwau eraill cyfarwydd oedd yn fuddugol yn ein Prifwyl hanner can mlynedd yn ôl oedd: Dychangerdd: John O. John, Porthmadog; Cerdd Vers Libre: T. Glynne Davies — a enillodd y Goron yn Llanrwst y flwyddyn ddilynol; Emynau: y Parch Rhys Nicholas; ac am draethawd helaeth o 157 o dudalennau


mewn ysgrifen fân ar y testun *Hanes Diwydiant Gwlân ym Meirionnydd* pwy ond Bob Owen Croesor, ac mi gafodd o £50 o wobwr.

Eleni, yn Llanelli, mae 'na 43 wedi cynnig am y Goron a 10 am y Gadair, ac fe gynigir £750 o wobwr ariannol.

£25 gafodd y diweddar Gwilym R. Tilsley am *Awdl Foliant i'r Glöwr*. Dydi petha wedi newid mewn hanner canrif.

Sut Steddfod fydd 'na yn 2050 ys gwn i? Fydd 'na Steddfod? Neu a fydd Anti Dot Com yn rheoli popeth erbyn hynny?

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

- ★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
- ★ Porches
- ★ Byrddau Ffasia
- ★ Cladio
- ★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES



SLIM CHWIM MEWN DIM! heb lwg na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— **TENEUWCH** —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

PEN-BLWYDDI MAWR.

Llongyfarchiadau i Mrs Dwywen Griffiths, 7 Bryn y Gof a oedd yn 80 oed ychydig yn ôl. Hefyd i Mrs Violet Berry, Bryn Eden a fydd yn 90 oed yn ystod mis Gorffennaf. PRIODAS. Llongyfarchiadau i Mark Bee ar ei briodas yng Nghapel y Cysegr, Bethel efo Manon Elis. Byddant yn cartrefu yn Nhaf Glangwna.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Dym'r patrwm hyd at doriad yr haf:

25 Mehefin: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Dafydd Hughes;
2 Gorff: 11.00 Ysgol Sul;
9 Gorff: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Gwyn Erfyl;

16 Gorff: Dim Gwasanaethau;
23 Gorff: Dim Gwasanaethau;
30 Gorff: 10.00 Gwasanaeth Boreol.

PROFEDIGAETH. Rydym yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Bethan Iwan, Carrog ar farwolaeth sydyn ei thad.

EISTEDDFOD YR URDD. Llongyfarchiadau i Catrin Roberts, 3 Erw Wen a oedd yn aelod o barti Cerdd Dant y Bontnewydd, enillwyr y gystadleuaeth o dan 19 oed. Roedd Donna Roberts, 10 Erw Wen yn aelod o Gôr Aelwyd y Bontnewydd.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mehefin oedd:

1. £40 (101): Dewi Parry, Cefn Rhos; 2. £25 (77): Brian Hayes, Gwersyll Glan Gwna; 3. £15 (95): Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; 4. £5 (85): Owie Williams, 19 Tai Glangwna.

LLONGYFARCHIADAU. Mae Tim Lloyd, Bodawel wedi ennill dyrchafiad dros dro yng Ngwasanaeth Tân Gogledd Cymru. Da iawn, Sam!

MIRI HAF. Bydd Pwyllgor y Cae Chwarae yn trefnu prynhawn o atyniadau ar y cae chwarae am 4.00 o'r gloch bnawn Sadwrn, Gorffennaf 29. Mwy o fanylion maes o law, ond cadwch y dyddiad yn rhydd.

NOFIWR. Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Llyngele am fod yn ail yn y gystadleuaeth nofio Dull Cefn i Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Wythnos cyn Alban Hefin — Heuldro'r Haf, bu Cyngor Gwynedd yn torri'r gwair o flaen mainc y pentref ar y sgwâr. Hyd yma ni fu unrhyw bleser eistedd ar y fainc a cheisio gweld y byd yn mynd heibio. Bedair blynedd ar ôl uno Cyngor Bwrdeisdref Arfon a Chyngor Sir Gwynedd mae Cyngor Gwynedd yn parhau i dorri'r gwair yn ôl y drefn a fodolai cyn adeg ad-drefnu llywodraeth leol. Mae trethdalwyr Caeathro yn gweld gwair yng nghanol ac ymylon pentrefi cyfagos wedi ei dorri fel 'gwair mwyrnderol' ond nid yng Nghaeathro. A ydyn ni'n derbyn 'gwerth gorau' o Gyngor Gwynedd?

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan, Y Waunfawr nos Fercher, 21 Mehefin. Roedd y Cyng. Vera Roberts a Clive James yn bresennol ar ran etholwyr Ward Caeathro.

Mae'r Syrfewr Ardal wedi cadarnhau bod sylfaen y ffordd fawr ger Tyddyn Whisgin yn gadarn, ond fod angen sylw i'r wyneb. Nid oedd unrhyw weithred ar ran CADW ynglŷn â statws hanesyddol y grisiau ar Bont Afon Efail Fach. Bydd y Cyngor naill ai'n cael Gyngor Gwynedd i osod bin sbwriel newydd wrth y lloches bws neu yn prynu un newydd eu hunain. Unwaith eto mae Cyngor Gwynedd wedi addo gorffen ailwynebu'r palmant ger mynediad Mur Matthew, gyferbyn â'r tarmac newydd ger yr arwydd 30mya newydd. Bydd Adran y Syrfewr yn archwilio llwybr Glanrafon Bach er mwyn sicrhau'r hawl tramwyo cyn ail-osod y llwybr oddi wrth y briffordd. Bydd ymholiadau ynglŷn ag unrhyw hawl gan blant i chwarae pêl-droed ar y tir gaored o flaen y tai ar stad Bryn y Gof. Digwylir torri'r gwair ar lwybr Caeathro Bach ddechrau mis Gorffennaf. Gofynnir i Gyngor Gwynedd redeg bws rhwng Caernarfon a Waunfawr ac yn ôl tua 9 yr hwyr er mwyn llenwi'r bwllch yn yr amserlen bresennol.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy



Rhai o'r trigolion yn mwynhau'r 'olygfa' o'r fainc ar sgwâr Caeathro.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?

Cysylltwch ag

R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216

WALIO

A
FFENSIO

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMBOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

antur WAUNFAWR

caffi 'Blas y Waun' cafe

prif nodwedd Bwydlen 'Blas y Waun' yw
defnyddio cynnyrch lleol

os oes gennych lysiau neu ffrwythau
ffres i'w gwerthu cysylltwch â
Carole Owen, Rheolwraig 'Blas y Waun'



01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhed yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau,
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall. Gallwn
drefnu adloniant — disgo
a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.

Mae gennym bellach drwydded
lawn tŷ tafarn.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CYMORTH CRISTNOGOL. Swm y casgliad yn yr ardal eleni oedd £410.62. Dymuna Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt ddiolch i bawb am eu cyfraniadau. Diolch hefyd i'r rhai a fu'n casglu o dŷ i dŷ.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Trefnodd y Sefydliad i aelodau o

—'Glwb y Maes' gyfarfod yn y pentref ar nos Iau, Mehefin 15. Daeth 62 o aelodau o wahanol Sefydliadau yn y sir ar y daith. Ar ôl eu croesawu gan Mrs Pat Parry, Llywydd y Sir, yn yr Antur, a chael sgwrs gan Mrs Mary Vaughan Jones, aethant i Festri Croes-y-Waun i fwynhau swper o salad ham, salad ffrwythau ffres a hufen a phaned, wedi ei baratoi gan aelodau o Sefydliad Waunfawr. Roedd pawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Mr O.T. Jones, Gwenallt ddiolch yn ddiffuant i'r teulu, cymdogion a llawer o ffrindiau am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac am yr ymweliadu ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

FFARWELIO. Gofid calon i mi yn y rhifyn hwn o'r Eco ydyw ffarwelio â'n gweinidog, y Parch Myfanwy Davies, o'r ofalaeth yn Waunfawr. Bu yma am gyfnod o ddwy flynedd a hanner, a bu yn weithgar iawn yn ystod ei harhosiad yma, yn enwedig gyda'r bobl ifanc a'r plant. Roedd hi'n gwybod lle i weithio ac wrth gwrs, y plant ydyw dyfodol ein heglwys ni heddiw. Bu yn weithgar ym mhob peth a berthynai i'r ddwy eglwys yma. Cawsom gyfarfodydd gweddi ac ambell seiat yn ei chwmni. Rydym wedi gwau amryw o blancedi i'w hanfon i'r gwledydd sydd yn llai ffodus na ni. Credaf ein bod yn cael colled fawr o'i cholli. Mawr obeithiaf y cawn ei gweld yn pregethu a gweinidogaethu eto yn fuan, gan mai dyna yw'r gwaith y mae yn hapus ynddo. Pob bendith i chi i'r dyfodol, y Parch Myfanwy, o'r Waunfawr.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Morris Pritchard a fu'n byw yn nhŷ capel Bethel yma yn y Waun am gyfnod. Anfonwn ein

cydymdeimlad at ei ferch, Gwen Hotton, 4 Stad Pant y Waun, ei mam a'i brawd yn eu profedigaeth. ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Mary Davies, Bryn Eithin a fu yn yr ysbyty am gyfnod yn ystod y mis.

Braf yw gweld fod Mrs Rhian Ellis, Ty'n Lliidiart yn gwella wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at Dafydd, Trefeddyg, sydd wedi syrthio a brifo asgwrn ei ysgwydd.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Eleri a Derek, 14 Stad Tŷ Hen ar enedigaeth merch fach, Katie Luoise, chwaer fach i Gwynnaf a Robert. Hefyd i Megan a John Owen, Ty'n Mynydd ar ddod yn nain a thaid unwaith eto.

Llongyfarchiadau i Caren a Dave o Gaernarfon ar enedigaeth merch fach, Elin Mai, wyres fach i Susan a gor-wyres i John a Grace Dawson, Stad Bro Waun a gor-or-wyres fach i Mrs G. Jones, Stad Tref Eilian. Peth tipyn yn anghyffredin yw cael pump cenedlaeth a'r ôl yn ferched. Pob bendith ar y teulu i gyd — a dyna ddymuniad Anti Katie hefyd.

SYMUD CARTREF. Dymuniadau gorau i Sioned, gynt o 17 Stad Tŷ Hen yn ei chartref newydd yng Nghaernarfon. Diolch iddi am ei chyfraniad i'r pentref dros y blynyddoedd.

DIOLCH. Dymuna Iwan, Shoned ac Elin, Tŷ Awelog ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniasant ar enedigaeth Mared.

LLONGYFARCHIADAU. Daeth Càn Actol cangen yr Urdd Waunfawr yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Conwy. Llongyfarchiadau mawr i chi blant os ar eich perfformiad ac i'r rhai fu'n brysyr yn eich paratoi.

DIWRNOD O HWYL. Bydd diwrnod o hwyl a gemau a gwobrwyio ieuencid Clwb Pêl-droed pentref Waunfawr yn y Ganolfan, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8. Bydd cyfle i gofrestru ar gyfer y gemau am 10.30 o'r gloch y bore yn y Ganolfan. Bydd Kevin o Champion FM yma i agor a chychwyn yr hwyl. Paratoir lluniaeth ysgafn am



Aelodau o adran yr Urdd a ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Conwy ar berfformio Càn Actol.

bris rhesymol. 'Dewch yn llu' yw'r gwahoddiad. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sylvia ar Waunfawr 650274.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Helen Williams, Garreg Fawr yn dathlu cyrraedd ei deunaw oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti i'r dyfodol Helen. LLONGYFARCHIADAU i ddwy o'r pentref — Elin Gwilym a Beca Brown — ar eu cyflwyniad o 'Hacio': rhaglen materion cyfoes gyda phersbectif ifanc sy'n ymddangos ar Sianel S4C digidol bob nos Iau.

OCSIWN. Cynhelir Ocsiwn o Addewidion yn y Ganolfan ar ddydd Mercher, Mehefin 28 am 7 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gyfeillion yr Ysgol.

Mae llawlyfr gyda'r addewidion

fydd ar werth yn y ddwy siop a'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r rhai sy'n cynnig addewid.

YR URDD. Llongyfarchiadau i'r plant a gafodd drydydd am eu perfformiad o'r Gân Actol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Conwy'n ddiweddar. Da iawn chi.

Hefyd i Helen a Deion am fod yn llwyddiannus yn y Cylch a'r Sir gyda'u gwaith Crochenwaith.

Pob lwc i'r rhaisyn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd hefyd.

Y RHIFYN NESAF. Daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg ddiwedd mis Awst. Cofiwch adael inni wybod am bob digwyddiad y dymunwch ei gyhoeddi yn y papur. Dymunwn wyliau haf braf a diogel i bob un ohonoch.

Llwybr Beicio

Mewn ymateb i apel gan Eurig Wyn ASE i'r Adran Gynllunio yng Nghyngor Gwynedd ynghylch cael llwybr beicio o Gaernarfon i Waunfawr, derbyniodd Mr Wyn yr ymateb canlynol.

'Byddwch yn ymwybodol fod gan y Cyngor raglen gynhwysfawr ac uchelgeisiol iawn o gynlluniau ar gyfer sefydlu rhwydweithiau o lwybrau ar gyfer beicwyr a cherddwyr. Ymysg y cynlluniau hyn mae'r bwriad i gysylltu Waunfawr a Chaernarfon. Gallaf eich sicrhau nad yw'r cynllun hwn wedi mynd yn angof ond yn anffodus ni fu'n bosibl clustnodi adnoddau dros y flwyddyn

ddiwethaf i roi sylw teilwng i'r cymal arbennig yma. Rhaid oedd rhoi sylw i weithredu cynlluniau oedd eisoes wedi eu rhaglennu yn enwedig rhai oddi fewn i Strategaeth Ardal y Llechen.

'Y bwriad yw edrych ar y cymal i Waunfawr yng nghyd-destun datblygiad llwybr hamdden oddi fewn i goridor Rheilffordd yr Ucheldir, eisoes mae swyddogion Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol wedi cychwyn ar y gwaith o asesu'r cynlluniau oedd wedi eu hystyried nôl yn nechrau'r 90au. Mae bwriad hefyd i wneud defnydd o'r hen drac o Tryfan Junction i Rhostryfan fel llwybr addas ar gyfer cerddwyr a beicwyr.'

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

Alwyn a Sarah Jones


RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen am y tro olaf am y flwyddyn 1999-2000 nos Fercher, Mehefin 14 pryd y cynhaliwyd y Daith Ddirgel flynyddol. Ar noson braf o Fehefin teithiodd bws Arthur o Fethel a thros bont Britannia i Frynsiencyn. Roedd yr olygfa am Gaernarfon yn ffriddedig wrth fynd am Fferm y Foel i weld y ffatri siocled. Yno gwelwyd y siocledwr medrus wrth ei waith yn gwneud siocledi arbennig. Cafodd pawb gyfle i flasgu y siocled blasus ac i brynu ambell beth bach melys yn y siop!

Yna aeth y gangen i Gegin Marquis yn Llanfairpwll i fwynhau pryd o fwyd. Llongyfarchwyd Manon Elis a Mark Bee ar eu priodas ac hefyd Llinos Angharad Morris ar gael swydd yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Balch oedd pawb o weld Delyth Williams yn ôl ar ôl iddi gael llawdriniaeth a dymunwyd yn dda i Sheila Roberts a fydd yn mynd i'r ystyby yn ystod y mis. Diolchodd y Llywydd Ann Lewis ar ei rhan hi a Sharon Owen (Ysgrifennydd) ac Edwina Morris (Trysorydd) i bawb am eu cefnogi yn ystod y flwyddyn a dymunodd yn dda i'r pwyllgor newydd. Enillwyd y raffl oedd Deilwen Hughes, Mair Jones ac Ellen Ellis. YR URDD. Bu nifer o'r aelodau yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mro Conwy ddiwedd mis Mai. Maent i'w llongyfarch ar safon eu perfformiadau. Daeth y Grŵp Dawnsio Disgo yn 3ydd a'r Grŵp Pop 'Agwedd' yngyntaf. Da iawn chi. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw.

Ar nos lau braf o Fehefin bu rhai o'r aelodau yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd. Llwyddodd Ian Jones i gael ail am Redeg a Iona Speake ail am Daflu Pêl. Hefyd cafodd Ela Christie a Ceri Roberts drydydd ar y Naid Hir. Bydd Ian a Iona yn mynd ymlaen i gystadlu ym Mabolgampau Sir yr Urdd ddiwedd y mis. Pob lwc i chi'ch dau.

Bydd rhai o'r plant yn mentro i Langrannog yn ystod gwyliau'r haf. Gobeithio y cewch amser wrth eich bodd.

Bydd yr Adran yn ailgychwyn cyfarfod ym mis Medi. CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyd mis Mai oedd: £20: Myfanwy Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygai (54); £10: Emyr Price, Caernarfon (169); £5: Olwen Williams, 8 Stad Eryri (18); Iorwerth Williams, Cilcain (71); Gwyneth Jones, Fachell (72); Ruby Harrison, Backita (181); Debbie Clack, Tawelfa, Saron (108); Wyn Morris, Fachell (137); Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135); Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd (65).

CYDYMDEIMLO. Ddechrau'r mis bu farw Mr Dennis Harrison, Backita. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Harrison a'r teulu yn eu profedigaeth. PRIODI. Ddydd Sadwrn, 27 Mai yn Y Cysegr priodwyd Manon Elis, Cilgeran a Mark Andrew Bee, Caernarfon. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig W.R. Williams, gyda Miss Elin Hughes, cyfnither Manon ar yr organ ac Ann Williams, Yr Wyddgrug ar y delyn.

Dymunwn yn dda i Manon a Mark yn eu cartref newydd yng Ngaeathro.

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 17 Mehefin yng Nghapel Bethel priodwyd Sian Llewelyn Jones, Y Ddolwen ac Eugene Jenkins o Gaerdydd. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Gwynfor Williams gyda Mrs Beti Owen ar yr organ.

Dymunwn yn dda i Sian ac Eugene yn eu cartref yng Nghoventry.

TRIP YR YSGOL SUL. Dydd Sadwrn, Gorffennaf 8 fydd diwrnod trip Ysgol Sul y Cysegr eleni, ac am newid trefnwyd i fynd i Sŵ Caer. Bydd y bws yn cychwyn o'r Cysegr am 9 o'r gloch y bore ac yn cychwyn yn ôl tua 5.30.

Ni chodir tâl ar blant yr Ysgol Sul am y bws ond bydd pris y bws i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul yn £3 ac yn £5 i oedolion.

Os ydych yn dymuno dod ar y trip dylid rhoi eich enw i un o athrawon yr Ysgol Sul mor fuan ag sydd modd cyn Gorffennaf 1.

Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)

(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU

DODREFN : GRISIAU

GWAITH TURNIO

BLYCHAU CLOCIAU

BLYCHAU DAL OFFERYNNAU

BLYCHAU ARDDANGOS

Mwy o Lythrau

Afallon
Fron Parc
Llanfairfechan.

Annwyl Mr Golygydd, Hoffwn ddiolch i Mrs Ceridwen Williams, Llanrug am yr atgofion o gapel Dinorwig ac am anfon y llun o'r Gweinidog a'r blaenoriaid (Eco Mehefin).

Cafodd y llun ei dynnu yn y pumdegau gan fy ewythr, Thomas Elwyn (ar y chwith yn y darlun) trwy amseru ei gamera. Mae atgof clir o'r achlysur gan ei weddw, Mrs Gwyneth Jones-Parry yn Llandrillo yn Rhos.

Diolch yn fawr i chi i gyd am bapur bro mor fywiog ac sydd yn bleser ei ddarllen bob amser.

Marion Blythin

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis
Gwynedd

Annwyl Olygydd, Yn y crynodeb o newyddion a materion Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a gyflwynir

gennych, mae yna gyfeiriad at bryder — cwbl ddealladwy — aelodau'r Cyngor hwnnw ynglŷn â'r arfer bellach o gyfieithu enwau ponciau Chwarel Dinorwig i'r Saesneg. Mae'r adroddiad yna'n nodi: 'Ni allai'r Amgueddfa Genedlaethol sicrhau fod yr enwau traddodiadol yn cael eu defnyddio'.

Rhag ofn i'ch darllenwyr fethu gweld y cysylltiad, neu efallai gael eu camarwain, cystal egluro'r cenfdir i'r adroddiad. Mewn llythyr at Glerc y Cyngor, tua dechrau Ebrill eleni, eglurais nad oedd gennym hawl, fel rhan o'r Amgueddfa Genedlaethol, i 'roi gorchymyn fel na ddigwydd hyn' — sef cais y Clerc. Fodd bynnag, euthum yn fy mlaen wedyn i sicrhau'r Cyngor, gan gyfeirio at y rhestrau o enwau'r ponciau sydd i'w gweld yn llyfrau y diweddar Emyr Jones, 'mai'r enwau yma, a rhain yn unig, a ddefnyddir gennym yma yn Amgueddfa Lechi Cymru'.

Yn gywir,
Dafydd Roberts (Ceidwad)

Gwyneb Newydd i'r Antur



Huw Davies, Rheolwr y Gwasanaeth Ailgylchu gyda Glyn Mowll, Rheolwr Cynllun Dodrefn yr Antur.

Gwyneb newydd i'w gyflwyno gan Antur Wainfawr y mis yma yw Glyn Mowll, sydd wedi cychwyn gweithio fel Rheolwr y Cynllun Dodrefn.

Yn enedigol o Benisarwaun, mae Glyn yn byw ers blynnyddoedd bellach yn Llanrug gyda Pat ei wraig a'i ddwy ferch, Heather a Ruth. Yn y gorffennol bu'n gweithio fel Swyddog Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch drwy Gymru gyda chwmni Readymix Concrete.

Bydd Glyn yn gyfrifol am gynllun arloesol gan y Gwasanaeth Ailgylchu fydd yn casglu nwyddau gwyn (rhewgelloedd, poptai er enghraifft). Ar ôl cael eu harchwilio gan drydanwr, bydd y nwyddau ar gael i bobl ar incwm isel, neu rai sy'n ddi-waith.

Yn stad Cibyn yng Nghaernarfon y bydd Glyn yn gweithio fwyaf, ble byddwn yn agor canolfan arbennig i'r cynllun Dodrefn a Nwyddau

Gwyn. Ariannir y prosiect newydd gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol.

Yn ogystal â Glyn, bydd trydanwr rhan-amser a thri gweithiwr gydag anableddau dysgu yn gweithio ar y cynllun. Bydd nifer o gyfleon hyfforddiant newydd yn bosibl i weithwyr yr Antur yn trin ac archwilio'r nwyddau i'w gwerthu.

Ar ôl cael ei draed tanodd bydd Glyn yn apelio am eitemau o ddodrefn a nwyddau gwyn, mewn cyflwr eithaf da, ar gyfer y cynllun.

Meddai Glyn: 'Rwy'n edrych ymlaen yn arw at ddatblygu'r prosiect. Hwn yw'r unig un o'i fath yng ngogledd-orllewin Cymru, ac yn ystod yr wythnosau nesaf byddaf yn ymweld â chynlluniau tebyg i weld sut y medraf ymateb i'r sialens o greu gwasanaeth heb ei ail i'r ardal.'

Am ragor o fanylion am y Cynllun Dodrefn a Nwyddau Gwyn ffoniwch Glyn ar (01248) 355112.



Beic 'di malu ac isio'i drwsio? Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio. Am feiciau glân ail-law a phartiau, Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723

Cymeriadau Plentyndod

Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug

(parhad o'r rhifyn diwethaf)

Crydd Bach y Waun - Rowland Roberts: Mae gofal am iechyd eu plant yn bryder i rieni ym mhob oes, yn enwedig felly os bydd yr arian yn brin a'r gwaith yn ansefydlog. Cyfnod felly oedd yn dilyn y Rhyfel Mawr yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf. Câl plant eu siarsio i warchod cyflwr eu hesgidiau. Doedd y 'welingtons' ddim mewn bri yn yr oes honno ond roeddem yn ffodus yn Llanrug, o gryddion diwyd.

Ar dir Hafod Garregog, ar safle y modurdy heddiw, safai caban coed a tho sinc — gweithdy Rolant y Crydd: Rowland Roberts o'r Groeslon, Waunfawr.

Dyn byr o gorff, pryd tywyll, moel ei gorun oedd Rolant a gerddai bob dydd dros y Ceunant at ei orchwyl, hynny yw ond Dydd Llun Cryddion, fel y'i gelwid, pan gâi'r crefftwr gyfle i fynd ynghylch defnyddiau at ei waith yn siop y Cwriwr yn Stryd y Crwyn, wrth hen siop Aston, a chael hoe fach yn y dre'r un pryd. Cludid y lledr trwm at wadnu a sodlu, hoelion mawr a mân, sbarblis at esgidiau gwaith, clemiau a phedolau, ar y bws o'r Maes drannoeth.

Gellid gweld Rolant yn eistedd ar ei stôl bren uchel wrth ei fainc o flaen y ffenestr, yn gwisgo ffedog ledr o'i flaen, a maneg ledr am gledd ei law dde pan fyddai'n pwytho esgid. Gwisgai grysg gwlanen streip a choler india-rybar wrth stydsen flaen ac ôl. Ni fyddai angel golchi honno, gan y gwnâi cadach gwlyb y tro.

Ar dro byddai'n rhaid galw yno i gael clwt lledr ar drwyn esgid, pedol ar sawdl neu glem ar y blaen a sbarblis ar y gwadn, i arbed traul. Bryd hynny caem wyllo y crydd wrth ei waith a sgwrsio yr un pryd. Er mai gŵr go dawedog oedd Rolant. Yn ateb i rhyw gwestiwn busneslyd o'm heiddo, rhyw ebwch a gawn gan y crydd. Sylwn ar ddwylo garw y crefftwr, yr ewinedd

cadarn a fu'n gwasgu a thrin y lledr i'w addasu at y gwaith. Anodd fyddai credu ei fod yn gyfeilydd dawnus ar y piano, yn ôl y sôn. Ni chlywais ef erioed ond deallaf ei fod yn gerddor dygn.

Ar ôl torri y lledr i ffurf y wadn a'i sgeifio gyda chylllell lem, trochai ef mewn padell o ddŵr oer am sbel yna i guro ar garreg-arffed i'w gafnio fel y gorwedda'i'n glos ar yr esgid. Rhyfeddwn wrth ei weld yn cymryd gwefflaid o hoelion bach melyn a'u curo fesul un gyda morthwyl ysgafn, neu ffeil, i sicrhau y wadn newydd yn ei lle. Wedi sgathru ei hymyl gyda rhathell, toddai gŵyr du yn y ganwyll wêr a'i daenu ar ymyl y wadn i roi sglein du iddi. Ar ôl gorffen y gwadnu a'r sodlu a phenselu enw'r cwsmer a'r pris, taflai yr esgid at bentwr parod yn y gornel. Gwadnu 2/6, Sodlu 1/-.

Arferai ddanfôn y sgidiau ar ei ffordd adref i'r Waun ar nos Wener neu bnawn Sadwrn. Gwelid ef yn dod a'i het ddu, galed ar flaen ei dalcen fel pe i gysgodi ei olwg, a chod du ar ei gefn yn llawn esgidiau. Gwyddem yn eithaf na allai fynd adref heb alw yn nhafarn Glyntwrog ar nos Wener a phur sigledig fyddai ei osgo. Wrth ei gyfarch fel Rolant Robaits caem yr un ateb bob tro, 'Wel, s'mai?' Os tawedog fyddai, gellid casglu bod ei feddyliau yn cael eu trethu wrth dorri llwybr union tuag adref.

* * *

Harri'r Barbar: Henry Tomos Parri: Fy nghof cyntaf o gael mynd i dorri fy ngwallt oedd at Harri Parri'r Barbar a drigai mewn tŷ ar gyfer Talybont. Mynd yno gyda'm tad a wneuthum, a oedd yn dipyn o lawiach gyda'r barbar.

Cofiaf fy mam yn sôn mai 'nhad a berswadiodd Harri i ddechrau busnes ac a fu yn ymorol am gadair bwrpasol iddo.

Fel ym mhob siop barbar, rhaid oedd eistedd ar fainc isel, hir i aros fy nhro ac, er mor winglyd fyddai bachgen yn ei ieuencid rhaid oedd ceisio ymddwyn yn dawel, gwranddo ar sgwrs y barbar ac ymateb y gwahanol gwsmeriaid i'r pwnc a fyddai ar dro. Byddai rhai yn hyf ar y barbar ac yntau yn trin pawb yn ôl ei anian, gan bryfocio, cytuno neu blagio rhai neu ymateb i ddiniweidrwydd un arall.

Doedd neb yn mynd i wyllo pryd fyddai eich tro ond chwi eich hunan, felly rhaid oedd cofio pwy oedd ar y fainc o'ch blaen a pheidio meiddio dwyn tro rhywun arall.

O bryd i'w gilydd deuai Siwsi, neu Shiw fel y galwai Harri ei chwaer, yno i dacluso dipyn ar y llawr gyda'i brws, rhag cario'r gwallt gyda'r traed i bobman.

Weithiau deuai â phaned o de i iro gwddf sych y barbar. Rhwng sgwrsio a thrafod gwalltiau, byddai ei lwnc yn bur gras, mae'n siŵr.

Doedd wiw i fachgen ysgol fynd i gael torri ei wallt ar nos Wener, chwaethach fyth nos Sadwrn, gan mai dyma noson yr Eillio Mawr cyn y Sul. Doedd y 'safety razor' ond prin wedi ymddangos yn ugeiniau cynnar y ganrif ac felly roedd mwy o alw am wasanaeth y barbar tua'r penwythnos.

Dyna fy nhro innau o'r diwedd: eistedd yn dalog yn y gadair a'm gorchuddio â lliain gwyn wedi ei dycio o gwmpas fy ngwddf rhag artaith y mân flewiach, pigog ar ôl yr orchwyl. Teimo dwylo oer y barbar ar fy mhen a chlip-clip y siswrn o gwmpas fy nghlustiau a'm gwegil. Rhaid oedd ymateb i bob

ystum y pen, yn ôl cyfarwyddid llaw y barbar a pheidio symud o'r ystum honno.

Arwydd fod y driniaeth ar ben oedd teimlo brws yn clirio y blewiach o du ôl y clustiau a'r gwegil yna, diosg y lliain, a chadach i garthu'r clustiau o'r manflew.

Siaradai'r barbar yn ddidor a gwyddai sut i gadw plentyn yn ddiddig. Holai hogyn pwy oeddwn i ac yna, 'O! hogyn Ifan Saer wyt ti? Un o'r sardins felly?' Gwyddai y byddai'n siŵr o'm plagio felly, gan fy mod o deulu mawr.

Daeth rhyw ffasiwn i ferched ieuanc gael torri eu gwalltiau yn gwta yn y dauddegau. Cyn hyn, seintwar y gŵyr a'r hogiau fu tŷ'r barbar, ond daeth tro ar fyd a gwelid genethod yn mynychu'r lle weithiau, i gael 'cyt cwta'. Gofynnai'r hen farbar cyn dechrau'r orchwyl, 'Be' fydd hi? Shemi 'nta shingl?'

Sut y llwyddai i wneud bywoliaeth mewn cyfnod mor fain? Tair ceiniog am dorri gwallt a dwy geiniog am eillio barf. A chymryd fod isrif cyflog lleol y dyddiau hynny yn ddwy bunt, mwy neu lai, byddai'n rhaid iddo wrth ddau can cwsmer i dalu ei ffordd.

Erys coffa annwyl am ymddygiad yr hen farbar. Bu'n gymeriad diddan a gwnaeth ei ran yn ddeheuig iawn ar y Sul, yn Ysgol Sul Pontrhythallt, fel athro i do ar ôl to o ieuencid yr ardal.

* * *

I'w barhau ar dudalen 20

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

MAE
SHARON VAUGHAN WILLIAMS
B.A. (Anrh.) Dip Perf
YN CYMRYD DISGYBLION
AM WERSI PIANO, CANU
A THEORI.
Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR
Ffôn: (01248) 353746

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AA
Speculated
MOT
Selected

RAC
Selected

GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AA
Speculated
MOT
Selected

RAC
Selected

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH
SERVICE

CWMNI CYFRIF

Gwasanaeth cadw llyfrau

Cyfrifon busnes

£ Cymorth marchnata £

a chynlluniau busnes

Cymorth ar sut i baratoi

ceisiadau am arian

amcan un (objective one)

Cysylltwch â lorwerth Llewelyn



01248 716454

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Aelodau tîm snwcer Deiniolen a enillodd Gwpan Paterson, Bangor a'r Cylch.

WYTHNOS CYMORTH

CRISTNOGOL. Dymuna pwyllgor y Cyngor Eglwys lleol ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl eleni, ac i'r casglyddion a fu o gwmpas yr ardal. Casglwyd y swm o £407.13.

Diolch hefyd am yr ymateb hael a fu ym mis Mawrth ac Ebrill i Apêl Llifogydd Mozambique. Derbynwyd y swm o £340.73.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod.

Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol, wedi ei harchwilio ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn y sawl sydd wedi ei harchwilio.

Dylid anfon ceisiadau at Miss Jean Parc Jones, Ysgrifennydd Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen, Cesail y Mynydd, Deiniolen, Gwynedd LL55 3NF.

Dyddiad cau: Gorffennaf 28, 2000. DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Owie Parry a Noel Williams, ddiolch i'r teulu i gyd, ein ffrindiau a'n cymdogion am bob caredigrwydd a chymwynas a gawsom yn dilyn tân yn ein cartref yn ddiweddar.

Diolch o galon i bawb. YSGOL GWAUN GYNFI YR URDD. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Sir ar ddydd Sadwrn, Ebrill 1 a llwyddodd Parti

Recorders yr ysgol i gael trydydd yn eu cystadleuaeth. Cafodd Manon Jones (bl.3) drydydd yng nghategori Celf a Chrefft drwy gylch Arfon.

Bu 14 o blant yr Urdd am benwythnos i Wersyll Glan Llyn, y Bala. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn yn gwneud y gwahanol weithgareddau oedd wedi eu trefnu ar eu cyfer.

Ar Fehefin 15 bu rhai o'r aelodau yn cystadlu yn y Mabolgampau ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Bu Ffion Haf Owen yn fuddugol yn y Ras Unigol dan 12 ac yn awr mae'n mynd ymlaen i gystadlu yn y gystadleuaeth Sir yn Nhreforth cyn diwedd y tymor. GWEITHGAREDDAU CODI ARIAN. Cafwyd noson o Bingo wedi ei drefnu gan Gymdeithas Rhieni/Athrawon yr ysgol ar nos Wener, Ionawr 21. Roedd lluo o wobrau yn cynnwys hamperi bwyd, bocsys o siocled, poteli gwin ayyb. Noson lwyddiannus dros ben. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cafwyd noson o ganu a dawnio ar nos Wener, Mawrth 31 yng nghwmni'r grŵp LOBSGOWS. Noson lwyddiannus arall a phawb yn edrych ymlaen i'w gweld eto yn y dyfodol agos.

I ddathlu'r Pasg, trefnwyd Ffair Basg gan y Gymdeithas Rhieni/Athrawon ar nos Wener,

Ebrill 7. Roedd yno lu o gemau a stondinau yn cynnwys llyfrau a chacennau. Enillwyd y noson oedd: Raffl: Mrs Down, Mrs S Maxwell, Mr I Phillips, Iwan Price, Ms V Morris, Gwenllian Owen, Kimberley Owen, Ms J Owens, Mr T Rees, Mrs J T Jones, Mrs B Griffith, Mrs C Murphy, Mrs L Owen, Mrs Down, Miss C Davies, Mrs S Huws, Mrs B Griffith, Mrs G Jones, Miss E Jones.

Pwy Di Pwy!: Miss M W Jones, Mrs G Jones.

Pwysu'r Deisen: Gwenllian Owen Sgwâr 100: Stephen Lee Jones.

Cynhaliwyd Naid Noddedig ar ddydd Gwener, Mehefin 16 i godi arian tuag at offer Mathemateg a Gwyddoniaeth. Manylion eto ynglyn â'r swm o godwyd a'r offer a brynwyd.

BLWYDDYN 6. Mae plant Blwyddyn 6 wedi bod yn Ysgol Brynrefail ar ddau ddiwrnod gwahanol i gael profiadau gwersi a dod i adnabod yr ysgol. Dymunwn yn dda iddynt yn eu gyrfa.

Bydd y plant yn ymweld ag Antur Waunfawr ar Orffennaf 7 i dreulio diwrnod yno yn gweithio ar wahanol fathau o farddoniaeth.

Maent hefyd wedi trefnu sioe ffasiynau gyda dillad y maen nhw eu hunain wedi eu cynllunio a'u gwneud. Roedd gweddill o blant yr ysgol yn rhoi cyfraniad i gael gweld y sioe a rhoddwyd yr arian yma tuag ar yr RSPCA ynghyd â'r arian a godwyd o ffair werthiant D5. Roedd stondinau o gemau a llyfrau ail-law a theisennau.

TYNNU LLUNIAU. Bu Mr J.C. Davies yma yn tynnu lluniau'r plant ar Ebrill 4.

Hefyd, i ddathlu'r mileniwm, mae cwmni Tempest yn dod i'r ysgol ar Orffennaf 5 i dynnu llun o blant yr ysgol i gyd gyda'i gilydd. Gobeithio y bydd y tywydd yn braf.

GWEITHGAREDDAU. Pantomeim: Ar Ionawr 6 bu holl blant yr ysgol yn gweld perfformiad o 'Un Dyn Bach ar Ôl' yn Theatr Gwynedd. Cyflwyniad gan fyfyrwyr Coleg Menai oedd hwn a mwynhaodd pawb yn fawr iawn.

Rhsaglen Tŷ Ni, Tŷ Chi - Planed Plant: Bu plant y Dosbarth Derbyn yn Stiwdio Barcud, Caernarfon ar ddydd Llun, Mawrth 6 i gymryd rhan yn y gyfres deledu 'Tŷ Ni, Tŷ Chi'. Roedd hwn yn brofiad anhygoel i blant 4 a 5 oed a mwynhawyd y cyfle yn fawr. Noswaith o Ddawns, Theatr

Gwynedd: Bu grŵp o blant D5 yn cymryd rhan mewn Noswaith o Ddawns yn Theatr Gwynedd, nos Fawrth, Mawrth 14 wedi ei drefnu gan yr Adran Addysg i hybu sgiliau perfformio plant ysgolion cynradd ac uwchradd gogledd Cymru. Teitl y ddawns oedd 'Grease' a mwynhaodd pawb y noson yn fawr iawn, y gynulleidfa a'r plant oedd yn cymryd rhan.

Gala Nofio: Cynhaliwyd y Gala Nofio yng Nghanolfan Hamdden Arfon ddydd lau, Mai 25. Llwyddodd brawd a chwaer, sef Robert a Sophia Williams, i gael trydydd mewn dwy ras wahanol. Cwmni'r Frân Wen: Ar Fehefin 27 cyflwynodd y cwmni berfformiad o 'Cae o Adar Duon'.

Cyngerdd yr Ysgol: Cynhaliwyd y Cyngerdd yn neuadd yr ysgol nos lau, Mehefin 29 am 6 o'r gloch. Cafwyd noson o amrywiaeth o ganu, dawnio ac actio.

Mabolgampau'r Ysgol: Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ysgol ar gae pêl-droed y Bwthyn ar ddydd Llun, Gorffennaf 3.

Gweithdy Hudol Johnny Hay: Daw Johnny Hay yma i roi gweithdai ar sut mae triciau hudol yn gweithio ynghyd â Sioe Hud ar Orffennaf 12.


Dosbarth 3: Ymlwelodd y dosbarth â Chaer Rufeinig Segontium ar ddydd lau, Mawrth 16. Gwelwyd yr adfeilion a chafwyd gwybod i beth yr oeddynt yn cael eu defnyddio yn y gorffennol. Hefyd ymwelwyd â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ar ddydd lau, Mawrth 23. Gwelodd y plant ffilm yn ymwneud â'r Chwael; gweld llechi yn cael eu hollti a'u naddu a'r tai sydd wedi eu haddasu i ddangos gwahanol adegau o'r diwydiant llechi.

Ail Agor ym Medi: Diolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn. Gobeithio y cewch wyliau braf ac i'r plant fod yn ofalus wrth chwarae. Bydd yr ysgol yn ailagor ddydd Llun, Medi 4, 2000.

CYMANFA'R PLANT A'R IEUENCTID. Cynhelir Cymanfa'r Plant a'r Ieuencid i ddathlu'r Mileniwm yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda fore Sul, Gorffennaf 2 am 10.30 y bore dan arweiniad y Parch Huw John Huws a Manon Llwyd.

Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis am 9.15; Penisarwaun am 9.30 a Deiniolen am 10.00.

Pris: Oedolion £1, Plant 50c. Croeso cynnes i chwi ymuno.



CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Cystadleuaeth Mathemateg Cymru



David, Mark, Huw a Ceri.

Llongyfarchiadau i David Nicholls am gyrraedd safon uchel iawn yng Nghystadleuaeth Mathemateg Cymru ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8. Derbyniodd ei wobwr mewn seremoni arbennig ym Mhabell Gwyddoniaeth a Mathemateg,

Eisteddfod yr Urdd Bro Conwy. Llongyfarchiadau hefyd i Huw Foulkes, Mark Pitts a Ceri Williams am gyrraedd safon uchel yn yr un gystadleuaeth.

Roedd dros 1000 o blant wedi cymryd rhan.

Baneri'r Wyl Canol Haf



Mawr oedd prysurdeb chwe disgybl o Flwyddyn 12 yn creu baneri mawr i ddathlu'r Wyl fawreddog yma.

Bu Sian Green, Jennifer Jones, Sam Yates, Sarah Jones, Thomas Owen a Guto Humphries yn meddwl am gynlluniau addas i ddehongli Canol Haf a'r Mileniwm Newydd yng Nghaernarfon.

Dewisodd y myfyrwyr ddarlunio golygfeydd symbolaidd o'r castell, y mynyddoedd, yr haul, hwylio a'r rheilffordd ac roedd yn brofiad iddynt weithio ar raddfa mor fawr.

Bydd y baneri yn cael eu harddangos ar y 'Promenâd' ac ar furiau'r castell ar benwythnos Mehefin 24 a 25.

NEWYDDION O YS



Dyma'r criw a fu ar daith i Ffrainc yn ddiweddar, ac yn roi llun o'r Sacre Coeur a'i alw'n Notre Damme yn y

Taith "Quest For a C



Roedd Rhys Morris a Kate Beard, Bl.10 yn teithio i Lerpwl ar Fehefin 21 ac yn hedfan i'r UDA ar yr 22ain.

Mae'r ddau, yn ogystal â'r ysgol a'r gymuned wedi bod yn brysur iawn yn codi arian at gostau'r daith.

Braf yw dweud bod pawb, unwaith eto, wedi cefnogi'r fenter gwerth chweil yma a diolch o waelod calon am eich cyfraniadau i gyd.

Ar Fai 28 aeth criw o

ddisgyblion ac athrawon ar daith gerdded nodedig o gwmpas Llyn Padarn a chodwyd £350. Swm anrhydeddus iawn.

Daeth y Raffl Fawr a £950 i'r gronfa a chafwyd £250 ar y diwrnod di-wisg ysgol gan y disgyblion.

Anfonwyd llythyrau apêl i gwmnïau lleol ac fe ddaeth £750 i law.

Mawr yw ein diolch fel ysgol i bawb wnaeth gefnogi'r fenter i gyrraedd y targed a hyderwn y

GOL BRYNREFAIL

Cyngerdd y Goreuon

Yn dilyn eu llwyddiant mewn arholiadau cerdd yn ddiweddar ymddangosodd tri disgybl yn y cyngerdd uchod ar Fehefin 8fed. Da iawn chwi, Elin Mai Jones 7E, Rhys Wyn Hughes 7i ac Elfed Morgan Morris, Bl.12. Daliwch ati.

Clwb Cant

Enillwyr Ebrill 200:

1. Gwenda Roberts, Llanrug; 2. Jacky Owen, Waunfawr; 3. Judith Pritchard, Brynrefail.

Enillwyr Mai 2000:

1. Pat Jones, Bethel; 2. Mary Jones, Bethel; 3. Judy Roberts, Llanrug.

Enillwyr Mehefin 200:

1. Iona Williams, Llanrug; 2. Merlynn Shelley, Fachwen; 3. Mary Jones, Bethel.

Ymweld â'r Coleg

Bu Sam Yates, Mark Evans, Guto Humphries a Matthew Thomas, sy'n astudio Dylunio a Thechnoleg Lefel A, yng Ngholeg Menai yn ddiweddar.

Cawsant flas ar systemau gweithgynhyrchu cyfrifiadurol a roboteq ac roeddynt wedi cael mwynhad mawr o'r profiad.

Roedd 'Gweld a defnyddio'r offer mwyaf diweddar wedi rhoi pleser a mwynhad mawr i ni,' medd Sam.

Cofnodi'r Mileniwm



Agorwyd arddangosfa yn y Photogallery yng Nghaerdydd y mis yma oedd yn cynnwys gwaith rhai o'n disgyblion ym Mlwyddyn 10.

Gwahoddwyd y myfyrwyr i dynnu lluniau i gofnodi diwedd y mileniwm diwethaf a dechrau'r mileniwm newydd a rhoddwyd camera bob un iddynt i wneud hynny.

Cyflwynwyd gwaith gan ffotograffwyr proffesiynol ac amatur dros Gymru gyfan, a dewiswyd nifer fawr o luniau disgyblion Ysgol Brynrefail i'w cynnwys ar CD Rom yn yr arddangosfa gan roi canmoliaeth uchel iawn am waith y disgyblion.

Dewiswyd un o luniau Jonathan Gordon fel cerdyn gwahoddiad i'r arddangosfa.

Yn ogystal ag ef, cymerodd y canlynol ran yn y gystadleuaeth: Emma Barton, Charlotte Bellis, Gemma Bourne, Simon Chong, Gavin Davies, Cefyn Davies, Christopher Eaglestone, Meirion Ginsberg, Llion Hughes, Gary Jones, Gethin Wavell Jones, Michael Jones, Monica Jones, Owain Morris, Rhys Morris, Barry Roberts, Gwen Rowlands, Caryl Williams, Graeme Williams o flwyddyn 10 a Sarah Jones o Flwyddyn 12.

Llongyfarchiadau mawr i Jonathan ac i bawb a gymerodd ran. Bydd yr arddangosfa yn ymddangos yn Oriel Peideits yng Nghaernarfon ym mis Mawrth 2001.

'Babi Bach y Wern'

Sioe Gerdd

yn yr Ysgol
Gorffennaf 10 a 11
7 o'r gloch yr hwyr

Gêm 24



Ceisio gwneud y rhif 24 gyda grwpiau o bedwar rhif a chyfuniad o adio, tynnu, lluosu a rhannu a hynny yn gynt na'ch gwrthwynebwyr yw syniad y gêm yma.

Llongyfarchiadau i Gethin Morgan a Mark Pitts, Blwyddyn 8 ac Ifan Dafydd, Blwyddyn 7 ar gyrraedd rownd gyn-derfynol

cystadleuaeth Cymru. Roeddent yn cystadlu yn erbyn disgyblion o 20 ysgol arall ar draws Gogledd Cymru. Cafwyd perfformiad dygn a da gan yr hogia mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Daeth Mark yn agos iawn i fynd ymlaen i'r rownd derfynol. Da iawn chi, hogia.

bydd ambell stori a llun o'r daith enwog yma yn ymddangos yn yr Eco maes o law.

Enillwyr Prif Wobrau'r Raffl Fawr

1. Pen-wythnos i ddau yn Llundain: Mrs Brenda Roberts, Llanberis; 2. Crys Manchester United (wedi ei arwyddo): Mrs O.M. Morris, Llanberis; 3. Tocyn Teulu i Donnington Grand Prix Collection: Beverly Cook, Pen-y-groes.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580



Mr. Colin Wager.

CYDNABOD GWASANAETH. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mr Colin Wager, y Llythyrdy ar gael ei anrhydeddu yn ddiweddar gan y Post Brenhinol am wasanaeth o bum mlynedd ar hugain fel postfeistr ym Mrynrefail. Daeth y teulu yma ddiwedd Mai 1975 ac mae'r gymuned yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth dros gyfnod go faith. Yn ogystal â bod yn Swyddfa Bost, dyma'r unig siop sydd ar ôl yn y pentref yn gwerthu amrywiol nwyddau a newyddiaduron. Mae'r teulu wedi bod yma yn hwy na neb arall ers cyfnod y diweddar Mr a Mrs W.F. Williams a fu'n gofalu am y busnes am gyfnod maith iawn hyd at ddiwedd pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Dywaid Mrs Dorothy Wager iddynt ddarganfod nifer o hen bapurau yn y siop o gyfnod cynnar y busnes sydd o werth hanesyddol, rhai ohonynt wedi eu trosglwyddo i'r Archifdy. Wele enghraifft o filiau yn dyddio yn ôl i 1871 a 1872, y naill am gist de gan gwmni o Lerpwl a'r llall am gyflenwad o lo a gludwyd ar y rheilffordd gan gwmni London and North Western Railways i orsaf Cwm-y-glo.

Dymuniadau gorau i'r busnes i'r dyfodol a gobeithio y cawn gadw ein Swyddfa Bost leol am amser maith i ddod.

DYWEDDIO. Llongyfarchiadau i Robert Mark Owen, 1 Ffrwd Madog ar ei ddyweddïad ag Anne Marie Williams, 35 Dôl Elidir, Llanberis ar Fehefin 13. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ddydd Sadwrn, Mehefin 16 yn Ysgol Brynrefail, Llanrug cynhaliwyd Sioe Grefft 2000 dan nawdd Ffederasiwn Gwynedd/Caernarfon o Sefydliad y Merched. 'Dathlu Genedigaeth' oedd thema'r Sioe. Cyflwynwyd nifer helaeth o waith crefft o bob math gan y gwahanol ganghennau a'r cwbl o safon uchel. Bu aelodau'r gangen leol yn brysur yn paratoi ar gyfer llawer o'r cystadlaethau a chafwyd llwyddiant mewn aml faes. Cyflwynwyd Cwpan y Fonesig Penrhyn i Mrs Pat Jones am y marciau uchaf yn y sioe.

Nos Lun, Mehefin 19 aeth yr aelodau ar y Trip Dirgel blyneddol.

Er fod pawb gyda'r syniad fod y bws yn mynd i gyfeiriad Ynys Môn, daeth pen y daith yng Nghanolfan Grefftau, Fferm yr Hendre, Abergwyngregyn. Cafwyd cyfle i ymweld ag unedau crefftwyr ym maes aml i arbenigedd mewn crochenwaith, gwaith arian a thecstilau. Yn dilyn cafwyd sgwrs fer gan y perchennog sydd, ar hyn o bryd, yn datblygu'r safle a fu unwaith yn ganolfan amaethyddol bwysig ers dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mewn cysylltiad ag Ystad y Penrhyn. Mae'r holl adeiladau yn rhestredig ac yn esiampl unigryw o adeiladau fferm o'r math hwn yng Nghymru. Ar y terfyn roedd gwledd yn ein disgwyl yn yr ysgubor enfawr a chroeso arbennig yng ngwres tân coed cysurus.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r ysgrifenyddes, Mrs Pat Jones am



Mrs Pat Jones.


y trefniadau gan Mrs Elinor Williams.

Bydd cyfarfod nesaf y gangen nos Lun, Gorffennaf 17 pryd y disgwylir Judy Lee Wong o Lanberis i roi sgwrs ar gyflwyno a gwerthfawrogi'r amgylchedd i blant o wledydd tramor.

YR EGLWYS PRESBYTERAIDD.

Yr Ysgol Sul: Brynhawn Sul, Mehefin 4 cafodd y plant a nifer o aelodau'r Eglwys gyfle i ymuno â phlant ac aelodau Capel Coch Llanberis ar ymweliad â Thymawr, Wybrnant, Penmachno, cartref yr Esgob William Morgan. Treuliwyd prynhawn hyfryd a'r tywydd yn hynod o braf i fwynhau y lle cyn tawel a phrydferth cyn troi i mewn i'r cartref a chael sgwrs gan Mr Dennis Davies, Llanrwst am yr adeilad hynafol, arferion ac amodau byw yng nghyfnod yr Esgob. Cafwyd cyfle i werthfawrogi copïau o nifer helaeth o Feiblau o wahanol ieithoedd ac yn arbennig gopi o Feibl Cymraeg 1588. Carai pawb ddiolch i Ysgol Sul Capel Coch am y gwahoddiad i ymuno â nhw ar y daith arbennig yma.

Y Gymdeithas: Nos Iau, Mehefin 8 cyfarfu Cymdeithas y Capel yn y Ffestri gyda Mr Richard Wyn Evans yn cadeirio. Roedd y rhannau arweiniol dan ofal Miss Alice Williams. Cyflwynodd y Cadeirydd wr gwadd y noson, sef y Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda. Roedd pawb yn falch o'i weld wedi cael adferiad iechyd ar ôl gwaeledd blin. Cafwyd noson hwyliog yn ei gwmni yn sôn am wahanol fathau o hiwmor. Diolchwyd iddo gan Mr Maurice Jones. Mrs Megan Jones a Mrs Eleanor Jones oedd gwesteion y te. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Gorffennaf 13 pryd y disgwylir Mr Richard Lloyd Jones, Bethel i roi sgwrs.



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Cŵl • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Brynrefail (ychwanegiad)

Y Llyfr Emynau Newydd: Fel y mae'n wybyddus, cyhoeddir Llyfr Emynau newydd cydenwadol ym mis Tachwedd dan y teitl 'Caneuon Ffydd'. Mae aelodau'r Eglwys eisoes wedi derbyn taflenni archebu. Os dymuna unrhyw un yn y pentref archebu copi am bris gostyngol, mae'n ofynnol i chwi archebu drwy'r Eglwys. Cysyllter â Mr G. Hefin Jones am y manylion a dylai pob archeb ei gyrraedd ef erbyn Gorffennaf 23.

Suliau Gorffennaf: Trefn yr oedfaon fydd:

Gorffennaf 2: Cyfarfodydd Dathlu'r Mileniwm dan nawdd Pwyllgor Mawl Henaduriaeth Arfon am 10.30 y bore yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda: Oedfa Plant a leuenctid dan ofal Manon Llwyd a'r Parch Huw John Hughes. 6 o'r gloch yng Nghapel Seilo, Caernarfon: Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr Geraint James, Bae Colwyn.

Gorff 9: Parch John Owen, Bethesda am 5.30 yr hwyr;

Gorff 16: Mr Noman Closs Parry, Treffynnon am 10.00 y bore;

Gorff 23: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00 y bore;

Gorff 30: Mr David Williams, Bethel am 5.30 yr hwyr.

DATHLU HANNER CAN MLYNEDD. Hyfrydwch fel Eglwys yw cael llongyfarch Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth ar ddathlu ohono hanner can mlynedd fel blaenor. Ordeiniwyd ef mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth a gyfarfu yng Nghapel Rehoboth, Nantperis, fis Mehefin 1950 yn un o bedwar a etholwyd ar y pryd gyda'r diweddar Mr Robert Jones, Gwynfa; Mr Elfed Roberts, Ffrwd Goch a Mr John Morris, Melinfryn, (Aberdaron yn ddiweddarach). Rydym yn gwerthfawrogi ei wasanaeth a'i ffyddlondeb i'r swydd am gyfnod mor faith ac yn dymuno llawer blwyddyn arall iddo yn y gwaith.

DIOLCH. Dymuna Mrs Dilys Morris, y Trefnydd Plygu ddiolch o galon i bawb ddaeth i'r Festri nos Iau, Mehefin 1 i blygu'r Eco. Diolch am y criw da sydd mor gefnogol i'r gwaith o flwyddyn i flwyddyn.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

'Bethan Miss'!

Dyma drydydd rhan dyddiadur Bethan Williams o Fethel a deithiodd i Nepal i ddysgu mewn ysgol arbennig yno.

23.09.99

Dw i heb sgwennu ers dipyn rŵan gan mod i 'di bod mor brysur. Os nad ydw i yn dysgu mewn ystafell ddosbarth dw i'n disgrifio Bethel a'r fro i'r athrawon neu'n yfed te yn nhŷ rhywun ne'i gilydd. Ma' nhw'n yfed mwy o de na Merched y Wawr!

Beth bynnag, dysgu. Mae o'n waith caled! Dw i 'di meddwl erioe d am athrawon fel pobl sy'n licio sefyll o flaen cynulleidfya yn siarad am rwbath sy'n swnio'n glyfar, ond o'n i'n anghywir! Ma'n rhaid deall y gwaith a wedyn meddwl, 'Sut y medra i gael y plant i ddeall?' Dw i'n gorfod ystyried gallu pob plentyn cyn gosod tasg a gan fod gallu y dosbarth yn amrywio gymaint mae'r rhai mwyaf galluog wedi gorffen ymhell cyn y lleill felly mae'n rhaid cael tasg arall... mae o'n ddi-diwedd.

Mae pob blwyddyn, o'r dosbarth meithrin i'r chweched dosbarth, yn cael arholiadau ddiwedd y flwyddyn ac, os nad ydyn nhw'n pasio mae'n rhaid iddyn nhw ail-ista'r flwyddyn honno nes mae nhw'n pasio. Felly, mae yna frodyr a chwiorydd yn yr un dosbarth ac yng nghanol y plant saith oed ym

mlwyddyn un, mae 'na fachgen deuddeng mlwydd oed.

Dydy adnoddau'r ysgol ddim cweit fel Brynrefail chwaith! Mae gen i lond llaw o sialc sy'n malu unwaith mae'n cyffwrdd y bwrdd du, a dyna ni. Dim pensiliau lliw, dim cyfrifiaduron a dim teledu. Mae gen i a Sarah ambell beth y daethon ni hefo ni fel pinau ffelt a phapur lliw ac mae'r plant ar ben eu digon hefo'r sêr aur. Erbyn hyn dw i'n rhoi seren aur i bawb er mwyn cael gweld y wên barhaol 'na'n lledu.

Mae dosbarth tri yn fendigedig. Mae Roshna'n gwybod mwy am Saesneg na fi a dim ond wyth oed ydy hi! Mae gen i un bachgen sy'n deall dim un gair o Saesneg ac felly'n eistedd yn y cefn yn gwenu'n ddel arna i bob gwers ond yn deall affliw o ddim. Dw i ishio eistedd hefo fo drwy'r wers yn egluro ac yn dangos ond mae gen i ugain arall o blant sydd yn ysu am gael dysgu mwy. Mi ysgrifenis gerdd amdano un p'nawn am be' ydw i'n ei feddwl sy'n mynd drwy'i feddwl o.

Estron yn ei wlad ei hun

Sŵn. Synnau. Estron

Deall... ambell... i diwn.

Gallu gwneud dim ond syllu a chopio 'nghymydog fel drych.

Tudalennau gwag a chwestiynau unig

Gafael 'n y beiro'n anabl.

Cael ambell i wên gan Feistres yr Iaith.

Yr iaith na alla i mo'i deall.

'Distaw. Unig. Ansicr'
Fy label yn y cofrestr.
Ond mud fyddai unrhyw un
sy'n troedio tir dieithr.

Dw i'n gallu cyfathrebu'n iawn
ond yn fy iaith fy hun.
Dw i ar ei hôl hi!
Dw i'n gw'bod hynny!
DW I ISHIO CYMORTH!
O hwnnw? Cha i ddim.

Fy mamiaith a fi.
Llaw yn llithro i faneg.
Ond rwan rhaid dysgu Saesneg
Dysgu'r
Sŵn. Synnau. Estron.

Ma'r athrawon yn ofnadwy o glên a wastad yn gweiddi, 'Let's go!' arnom ni. 'Let's go!' i gael cinio, i'r gwasanaeth (sef ymarferion ar yr iard) neu i'r pentref am... banad o de!

Dydw i'm yn licio'r dosbarth meithrin. Fy mai i ydy o. Mi benderfynais yn y wers gynta' mod i am fod yn glên a chwarae gemau â nhw. Camgym go iawn! Rŵan, pan dw i'n trio dysgu'r lliwiau neu ddyddiau'r wythnos mae nhw'n neidio ar draws yr ystafell ishio chwarae. O'n i'n flin ddod hefo nhw felly pan ddaeth un o'r hogia' ata i a dweud

'Toilet miss.'

Mi wrthodais iddo fynd. Yna, dechreuodd y dosbarth chwerthin. Wrth droi fy mhen yn araf, dyna lle'r oedd y bachgen, llysnafedd yn rhedeg i lawr ei drwyn a gwên ar ei wyneb bodlon, yn sefyll mewn pwll gwlyb! Drwy lwc, does dim carped ar y llawr felly fe sugnodd y conchrid ei 'ddamwain'.

Felly, wedi dros wythnos o ddysgu yr unig beth yr ydw i wedi ddysgu i bob dosbarth ydy, 'Miss, mai I go to the toilet?'

DRAENOG



Llongyfarchiadau i'r wraig o Lanrug a enillodd wobr raffl yng Nghaernarfon yn ddiweddar. A'r wobr a gafodd gwraig y cigydd enwog o Lanrug? — darn o biff!!



Rhai o aelodau Ysgol Sul Brynrefail ar y trip i Dŷ Mawr, Wybrnant.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes

1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161



Na, nid 'detention' — ond Mr Eifion Jones, Prifathro Ysgol Brynrefail yn cadeirio cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau dathlu canlwyddiant yr ysgol ym mis Medi.

NANT PERIS

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Dr Alwyn Parry, Llywydd, yn cyflwyno siec am £400.00 i nyrsys ardal plwyfi Llanberis, Llanddeiniolen, Llandinorwig a Llanrug ar ran Pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid Nantperis a'r Cylch

CYMORTH CRISTNOGOL. Casglwyd y swm anrhydeddus o £87.42c tuag at yr elusen eleni — diolch i bawb a gyfranodd.
CARNIFAL. Cynhelir Carnifal blyneddol y pentref ar nos Wener, 21 Gorffennaf. Cychwynna'r orymdaith o Fro Glyder am 6.30 yr hwyr. Trefnir noson gwis ar y nos Lun flaenorol (Gorffennaf 17) yn Ty'n Llan — gobeithio eich gweld i gyd yno! Bydd y gystadleuaeth pŵl am Gwpan Goffa Selwyn

(parhad o dudalen flaen)

at feithrin adnabyddiaeth ein perchnogion o Gymru, ei phobl a'i diwylliant.'

Ychwanegodd James McAllister, 'Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i Catrin am roi o'i hamser ei hun i gynnig y gwasanaeth gwerthfawr hwn i'n perchnogion ym Mharc Cartrefi Gwyliau Brynteg.'

Mae'r perchnogion wrth eu bodd gyda'r gwasanaeth newydd. Meddai un, 'Gwych!' Mae gan Catrin ffordd gartrefol iawn o gyflwyno ei gwersi ac mae pawb yn cael hwyl yn ogystal â dysgu yr un pryd.' Ac meddai perchennog arall, 'Mae gan Catrin gariad amlwg at yr iaith a llwyddai i drosglwyddo'r hoffter hwn i'r dosbarth.'

Davies yn cychwyn am 7 o'r gloch y nos Fercher dilynol (i drigolion Nantperis yn unig).


BEDYDD. Ar Fehefin 11 bedyddiwyd Megan Jayne, merch Hefin a Trudy Pritchard, Tyddyn Alys, yn Eglwys Sant Peris. Dymuna'r teulu ddiolch i'r Parch Philip Hughes am arwain y gwasanaeth ac i'r rhieni bedydd — Helen (modryb), Nia ac Alwyn.
GWELLHAD BUAN i Mrs Beryl Davies, Plymouth (Ceunant gynt) sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae hi bellach wedi dychwelyd gartref a dymuna holl deulu Ty Isa' wellhad buan iddi.

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Enillwyr mis Mehefin oedd Alun Jones, 4 Glanrafon, Llanberis (£35); Heulwen Edwards, 17 Stryd Fawr (£25); Shirley Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis (£15); Rhona Lampard, Tŷ Gwyn, Nantperis (£10); a Grace Roberts, Hyfrydle, Llanberis (£5).

PEN-BLWYDD HAPUS i Reenee Mullane, Cae Gwyn fydd yn 18 oed ar Orffennaf 29.

PEN-BLWYDD HAPUS hwyr i Sara Davies, Tan y Bryn a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 ar Fehefin 23. Dymuna Sara ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ac i'w theulu am drefnu parti bythgofiadwy yn Ty'n Llan.

Moethusrwydd i bawb yn Salon Harddwch 'Top to Toe' ym Mharc Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug



Dros y 18 mis diwethaf mae perchnogion Parc Brynteg, Llanrug wedi buddsoddi dros £3.5 miliwn yn creu'r 'Parc Cartrefi Gwyliau Gorau ym Mhrydain'.

Wrth greu dros 40 o swyddi newydd llawn amser, dros 80% ohonynt wedi eu llenwi gan bobl o Wynedd, Brynteg erbyn hyn yw un o brif gyflogwyr yr ardal.

Yr ychwanegiad diweddaraf i gyfleusterau'r Parc yw Canolfan Chwaraeon ac Adloniant newydd gwerth dros £1 miliwn, yn cynnwys Neuadd Chwaraeon, Bowlio Deg, Clwb Gwledig a Champfa. Yno bellach hefyd ceir Salon Harddwch o'r enw 'Top to Toe'.

Dan gyfarwyddyd arbenigol y

therapydd lleol, Debbie Ellis, mae'r Salon yn cynnig amrywiaeth eang o driniaethau a fydd yn eich adnewyddu a'ch mwytho o'ch corun i'ch sawdl!

Mae'r Salon ar agor i bawb — nid dim ond i breswylwyr y Parc Gwyliau. Gelir trefnu apwyntiad drwy ffonio Debbie ym Mrynteg.

Gadawodd Debbie Llanrug yn 1993 ar ôl derbyn ei hyfforddiant cychwynnol yng Ngholeg Menai, Bangor. Cafodd waith a hyfforddiant fel therapydd ar long enwog y QE2, yn sicrhau mordeithiau pleserus i deithwyr cyfoethog. Yna fe'i gwahoddwyd i weithio yng Ngwesty Gleneagles yn yr Alban lle cafodd ei chyflogi tan yn ddiweddar.

Meddai Debbie, 'Roeddwn eisiau rheoli fy musnes fy hun a chynnig gwasanaeth o safon uwch na'r hyn a geir mewn mannau eraill. Mae cael y cyfle i fod yn rhan o'r datblygiad ym Mrynteg yn gyffrous dros ben.'

Daw'r gwahanol gynhyrchion a gynigir gan Debbie o dŷ harddwch enwog 'Decleor' ym Mharis.

'Top to Toe' yw'r unig salon Decleor yng ngogledd Gwynedd. Fe'i rhedir gan Debbie gyda chymorth ei dau bysgodyn aur, 'Cleanse' a 'Tone'!

Mae 'Top to Toe' yn cynnig gostyngiad o 10% i bawb sy'n ymweld cyn 15 Gorffennaf 2000.

Newyddion Deiniolen

LLWYDDIANT ARHOLIAD. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar lwyddo yn eu harholiadau yr haf yma:

Siôn Wyn Hughes, Ty'n Weirglodd: Tystysgrif yn y Gyfraith;

Euros Wyn Williams, Hafle: BA mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Salford;

Siân Ellen Thomas, Pentre Helen: BA Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor;

Tanya Marie Thomas, 79 Pentre Helen: BA mewn Twristiaeth Rhyngwladol ym Mhrifysgol Lincoln.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyrfa â dau deulu o'r ardal sydd wedi cael profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf:

Mr a Mrs John Brennan, Afallon, Mr Brennan wedi colli ei frawd, hefyd

Mr a Mrs Rex Faulkner, Fron Dirion, Mr Faulkner wedi colli ei frawd yntau. Derbynied y ddau deulu ein cydymdeimlad dwysaf. LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gwilym Davies, 10 Bro Elidir ar ddathlu ei Priodas Aur ar Fehefin 3. Dymunwn bob bendith ac iechyd i chwi eich dau i'r blynyddoedd a ddel.

CYMANFA Y BEDYDDWYR. Cynhaliwyd Cymanfa Bedyddwyr Cymru Adran Caernarfon a'r Cylch yn Garndolbenmaen ar Mai 7. Rhoddwyd tystysgrifau llafar i'r canlynol. Elen Gwenllian Morris, Megan Elizabeth Jones, Bleddyn Clarke, Marion Clarke a Gruffydd Jones. Bob un wedi cael Seren Aur. Da iawn chi a daliwch ati.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Megan Morris, Minffordd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 oed ar Mehefin 11. Dymunwn i chwi bob bendith, iechyd a hapusrwydd i'r blynyddoedd a ddel.

GAIR O DDIOLCH. Er bod dipyn o amser wedi mynd ond yr wyf yn siŵr nad yw yn rhy hwyr i ddiolch fel ardal i Mr Ieuan Williams, Deiniolen am y gwasanaeth a roddodd i'r ardal pan yn rhedeg y gwasanaeth cludiant cyhoeddus. Gwasanaethodd yr ardal yn anrhyddedus iawn. Eira neu beidio fe ddô i y bws. Ieuan, fel ardal yr ydym yn dymuno iechyd i chi i'r dyfodol. Diolch yn fawr iawn, yr wyf yn sicr na welwn yr un gwasanaeth eto.

TRANFIDIAETH CYHOEDDUS. Fel y bu imi grybwyll wrth ddiolch i Mr Ieuan Williams am y gwasanaeth a gawsom fel ardal ganddo, wrth weld amserlen newydd 'Arriva' i'r haf dyma sioc a siom. Does dim ond un gair i'w ddisgrifio, sef 'HAFOC'. Hafoc llwyr i'r rhai sydd yn gorfod dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i fynd a dod. Ni allaf weld bod llawer o feddwl wedi mynd i mewn iddi.

Ers pan wyf yn cofio mae bws 9 wedi bod i Gaernarfon a bws 10 i Fangor. Os oedd eisiau picio i bentref Deiniolen, yna mynd hefo un a dod yn ôl hefo'r llall, ond yn awr dwy bob dwy awr o 10 y bore i 6 yr hwyr sydd ar gael.

Mae'r henoed a'r sawl sydd yn gweithio a heb gar yn llwyr ddibynol ar y drafndiaeth

gyhoeddus. Mae bws yn hanfodol iddynt i fynd i'r feddygfa i weld y meddyg. Maent yn rhedeg bws am 11 o'r gloch y nos, rwyf yn sicr nad oes raid cael y bws yma.

Nid oes bws yn mynd heibio Ysbyty Gwynedd — hyn yn golygu mynd i Fangor, yna newid i fws arall i gyrraedd Ysbyty Gwynedd. Wrth gwrs mae hyn yn costio ac nid yw pawb yn gallu fforddio. Pam tybed fod galw yn Tesco yn fwy pwysig na'r Ysbyty a'r Colegau?

Peth mawr ydyw meddwl am yr henoed yn gorfod disgwyl am ddwy awr yn Neiniolen a hynny heb warchodfa rhag y tywydd, a chofiwch mai amserlen haf ydyw hon. Rwyf ofn meddwl sut un fydd yr un am y gaeaf.

Rhyw fis yn ôl cawsom hofrennydd RAF Rescue yn glanio yn yr Allt Ddu i gludo dringwr oedd wedi disgyn wrth ddringo. Yr wyf ar ddeall mai bob tro mae'r hofrennydd yma'n codi mae'n costio mil neu fwy o bunnoedd, ac eto nid oes trafndiaeth cyhoeddus i bobl pentref Dinorwig.

Mae llythyrau wedi mynd i Swyddog Trafndiaeth Gwynedd ynghyd â deiseb gyda llofnod pobl yr ardal arni.

Unwaith eto mae'n edrych yn debyg nad yw pentref Dinorwig ar y map. Efallai bod y Swyddogion yma yn meddwl fod gan bawb gar, eu bod mor gyfoethog nad ydynt angen codi eu pensiwn a bod pawb mor iach fel nad ydynt angen mynd i'r feddygfa.

Tybed ai rhif ffôn RAF Rescue sydd ei eisiau ar bobl Dinorwig. Mae'n amlwg bod y rhain yn gwybod fod rhywrai yn byw yma. CYFARFOD PREGETHU. Cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu ar y Sulgwyn fel arfer gan Sardis. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Huw John Huws, Porthaethwy. Cafwyd dau gyfarfod, sef un am 2 o'r gloch ac un yn yr hwyr. Cafwyd cenadwri amserol iawn a da oedd gweld cymaint wedi troi i mewn.

GWYLIAU'R HAF. Gan na ddaw Eco o'r wasg ar ôl hwn, tan fis Medi, ga i ddymuno Gwyliau Haf hapus i bawb. I bawb sydd wedi bod yn eistedd arholiadau gobeithio y bydd y canlyniadau yn foddhaol, a dymuniadau da i bawb fydd yn dechrau yn y Coleg neu'r plant bach fydd yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf ym mis Medi.

Cofiwch hefyd mai tro trigolion Dinorwig fydd plygu'r Eco fis Medi.

Hwyl fawr i bawb.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM-Y-GLO. Croeso mawr y mis yma i Katie Lauren Roberts i'r Dosbarth Meithrin. Mi fydd hi a'i theulu yn symud i fyw i Benlllyn yn ystod yr haf. Mae wedi setlo yn ardderchog gyda'i ffrindiau bach newydd ac mae sôn bod rhai yn hiraethu amdani yn Ysgol Dolbadarn.

Cafodd Plant Bl. 0, 1 a 2 fore difyr yn Ysgol Dolbadarn pan aethant draw yno i gyfarfod â'r Robot Ail-gylchu. Bu rhai yn ddigon ffodus i ennill crys-T am ateb yn dda.

Enillwyr Clwb yr ysgol am fis Mai oedd Mrs Heulwen Jones, Nant y Glyn, Llanrug a Mr Keith Williams, Bryn, Cwm-y-glo.

Erbyn daw y rhifyn hwn allan o'r wasg fe fydd 9 o blant Bl. 6 wedi treulio diwrnod arall yn Ysgol Brynrefail. Byddant hefyd yn arwain eu gwasanaeth olaf yn Ysgol Cwm-y-glo fore Gwener, Gorffennaf 14. Carem ddymuno'r gorau i Alwyn, Andrew, Kate, Maria, Kirsty, Jessica, Rhian, Katie a Michelle yn eu hysgol Uwchradd ym mis Medi. Gwnewch eich gorau yno a diolch i chwi am bopeth tra buoch yma.

Mentrwyd ar gyngerdd o Hwyl yr Haf eleni gydag eitemau amrywiol gan blant o Bl. 1 i Bl. 6. Roedd gennym gôr adran lau a chôr Babanod, parti llefaru, parti dawnsio gwerin, dau barti recordyddion a thriawd pres. Cafwyd perfformiadau gan unigolion hefyd — Stephanie, Anest Mair, Harry, Karon, Aron a Rhian. Tuag at Adran yr Urdd yr ysgol yr oedd yr elw y tro hwn. Diolch i Mrs Orritt ac i Mrs Christine Jones am baratoi y banded, am roddion i'r raffl ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson.

Llongyfarchwn y plant aeth i gynrychioli Adran yr Urdd yn y Mabolgampau yng Nghaernarfon. Er na ddaeth gwobrau i'r ysgol, rydym yn falch iawn ohonoch a diolch i chwi am gystadlu. Bydd Mabolgampau'r ysgol ar gae y pentref bawn Llun, Gorffennaf 10 am 1.15 o'r gloch. Croeso i bawb.

I gloi y flwyddyn ysgol bydd disgo arbennig wedi ei drefnu, yn ôl yr arfer, gan rieni Bl. 6. Gawn ni, fel ysgol, fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iawn i'r rhieni

gweithgar sydd wedi codi arian sylweddol iawn i ni, i'r llywodraethwyr, i ffrindiau a theuluoedd y plant. Yn fwy na neb, diolch i chwi bentrefwyr Cwm-y-glo am eich cefnogaeth amhrisiadwy i holl weithgareddau yr ysgol ar hyd y flwyddyn. Pob hwyl dros yr haf.

UNDEB Y MAMAU. I ddiweddu ein cyfarfodydd am y tymor yma trefnwyd noson Moes a Phryn yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Mehefin 5. Mrs Margaret Latham a Mrs K Jones oedd yn gofalu am y lluniaeth a'r raffl. Trafodwyd rhai materion. Bydd y Te Mefus yn cael ei gynnal yn Stirling Cottage, Llanrug bawn Sadwrn, Gorffennaf 22 am dri o'r gloch. Y mae Swper y Cynhaeaf yn cael ei baratoi yn y Felinheli ar Hydref 2. Mwy o fanylion ymhellach. Enillwyd y raffl gan Karen Birbeck a diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Joyce Rawson. Doedd dim arall i'w drafod a threfynwyd trwy weddi.

LLONGYFARCHIADAU i Carol a Bobby Evans, Dolafon ar ddod yn daid a nain, ganwyd mab bach i Bryn a Sharon yn Llanrug. Hefyd i Huw Roberts, Craig-y-don ar ddod yn daid, ganwyd mab bach i Ceri a Robin. Hwylthau hefyd yn Llanrug. Pob dymuniad da i'r ddau deulu.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Elizabeth, Rhiannon a Glenda a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl, Mr William Richard Jones (Billy), Hafan Elan, Llanrug (gynt o Maes Gerddi a Dolafon) a fu farw Mai 21, 2000. Bu ei angladd ddydd lau, Mai 25 gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Gabriel gyda'r Parch Philip Hughes a Mr Derek Jones yn gwasanaethu, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Llanrug.

CAPEL Y TABERNACL. Yn ystod y gwasanaeth bawn Sul Mehefin 4, 2000 gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu, croesawyd yn gynnes iawn ddau aelod newydd i'n plith: Dr Graham a Mrs Cassie Thomas, Min-y-nant. Mae Mrs Thomas am ymgymryd â'r gwaith o fod yn organyddes i'r eglwys. Gweinyddwyd y Cymun Benidgaid.

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Mehefin 13 aeth nifer dda o'r aelodau ar drip dirgel a drefnwyd gan Olwen Hughes ac Ann Evans. I Amgueddfa Atgofion Plentynod, Biwmares yr aethom ni gyntaf a daeth sawl atgof i'n cof ninnau wrth grwydro o ystafell i ystafell. Wrth adael yr arddangosfa roedd sawl un yn gresynu na fyddent wedi dal eu gafael yn eu hen deganau gan eu bod yn drysorau bellach. I ddiweddu'r noson cafwyd pryd o fwyd ardderchog yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy.

Diolchodd Ann Evans, y Llywydd i'r swyddogion ac i aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cyfarfodydd arbennig o ddiddorol eleni a diolchodd Phyllis Elis yn gynnes iawn i Ann Evans am ei gwaith.

Bydd cyfarfodydd y gangen yn ailddechrau ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn y Colegau a phob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, Mai 20, 2000 yng Nghapel Caersalem, Morfa Nefyn priodwyd Eilir, mab Llewelyn a Cathrin Jones, Rhiwenfa, Afon Rhos, Llanrug a Catrin, merch hynaf Elfed ac Elisabeth Roberts, Ty'n Ffridd, Penrhyndeudraeth.

Gwasanaethwyd gan y Parchedig Aled Davies, Porthmadog a'r organyddes oedd Elisabeth M. Roberts. Y morwynion oedd Siân Llywelyn Roberts (chwaer y briodferch), Meri Martin, Margaret Martin (cyfnitherod y briodferch) a Lona Massarelli (ffrind y briodferch). Gwydion Llŷr oedd y macwy bach. Y gwas priodas oedd Rhys Parry Owen (ffrind y priodfab). Yr ystlyswyr oedd Richard Emllyn Thomas, Iwan Williams ac Iolo Penri. Cynhaliwyd y wledd briodas i 94 o wahoddedigion yng Ngwesty y Linksway, Morfa Nefyn a chafwyd parti gyda'r nos i 150 i ddilyn. Treuliwyd y mis mēl yn Ynysoedd Maldives a Sri Lanka.

Mae Eilir yn beiriannydd gyda chwmni teledu annibynnol Barcud ac mae Catrin yn actio. Byddant yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.

DIOLCH. Dymuna Eilir a Catrin ddiolch am y llu anrhegion ac arian a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

DYMUNIADAU DA i Neil a Llinos Jones sydd wedi gadael Llanrug i ymgartrefu yn Cadnant, Tai Tan-y-coed. Pob hapusrwydd i chwi eich dau a chroeso i Dan-y-coed. MARWOLAETH. Ar Fehefin 10 bu farw Mr M Parry Jones, Groeslon Marc ar ôl gwaelled hir. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Tesni a Rhys, Dilwyn a Sherry, Gavin, Jason ac Alys, a'i chwaer Dilys. YSGOL LLANRUG. Fel diweddglô i'w thema 'Pobl yn ein helpu' tymor y gwanwyn cafodd disgyblion Blwyddyn Derbyn ymweld â Gorsaf Dân Caernarfon a chyfarfod â Sam Tân. Dymunant ddiolch i'r criw fu'n eu harwain o amgylch yr orsaf am y croeso a gawsant.

Fel rhan o'u thema 'Y Môr' buont ar ymweliad â Phenmon a'r Sŵ Fôr ar Ynys Môn. Dymunant ddiolch hefyd i Mr Gwilym Jones, Siop Bysgod Bontnewydd am y cyfle i gael ymweld â'r siop a gweld yr holl bysgod sydd yno a dysgu am arferion a chynefin rhai o'r pysgod.

Bu Blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Gelli Gyffwrdd fel cychwyniad i'w thema 'Yr Amgylchedd'. Byddant yn cloi'r gwaith gydag ymweliad â'r Byd Môr yn y Rhyl a Pharc Eirias ym Mae Colwyn.

Gobeithio yn fawr am dywydd braf y mae disgyblion Blwyddyn 6 er mwyn iddynt gael gwireddu breuddwyd ac ymweld ag Ynys Enlli. Menter gan Gyngor Sir Gwynedd yw hwn sy'n cynnig i ddisgyblion Blwyddyn 6 y sir gael ymweld â'r ynys. Byddant hefyd, ynghyd â Blwyddyn 5, yn cael taith gerdded at y rhaeadr yn Abergwyngregyn.

Yna bydd Adran Iau yr Ysgol yn diweddu eu tymor gyda gwibdaith i Gulliver's World.

Aeth Mr Williams a nifer o'r disgyblion ar y trên cynnar i Lundain er mwyn cael y cyfle i ymweld â'r Gromen Mileniwm.



Eilir Jones, Rhiwenfa, Afon Rhos a Catrin Roberts a briododd yn ddiweddar ym Morfa Nefyn.

Daethant yn ôl yn hwyr y nos yn flinedig ond wedi mwynhau yn fawr.

Bu amryw o ddisgyblion yr Adran Iau yn mwynhau'r profiad o gerdded llwybrau ardal Rhyd-ddu ac aros noson yn yr hen ysgol yno.

Fe fwynhaodd y parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed y profiad o gael dawnsio ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fawr iawn, ac er na ddaeth gwobr y tro hwn, fe ddawnsiodd yr wyth yn arbennig o dda.

Bu nifer o aelodau'r Urdd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen a daeth y tîm Ras Gyfnewid Bechgyn dan 10 oed i'r brig. Byddant yn awr yn cynrychioli Cylch Arfon ym Mabolgampau Sir yr Urdd ar gaeau Treborth nos Lun, Mehefin 26. Rhedwch gyda'r un penderfyniad, hogia!

Dymuna Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ddiolch i bawb a gefnogodd eu menter yn cynnal noson gymdeithasol yng nghlwb Pêl-droed Caernarfon yng nghwmni'r


grŵp Celt. Hyderant yn fawr y cânt eich cefnogaeth eto yn y Ffair Haf a gynhelir ar fuarth yr ysgol brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 8. Prynhawn i'r teulu cyfan gyda Jac y Jwc wedi addo troi i mewn.

Byddwn yn ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6 ddiwedd y tymor gan ddymuno'r gorau i bob un ohonynt yn Ysgol Brynrefail. Ffarwelio'n hefyd â Miss Rhian Williams a fu'n athrawes Blwyddyn 2 gan ddymuno pob hap usrwdd iddi yn Ne Cymru. Bydd Miss Catrin Jones yn cymryd yr awennau ym Mlwyddyn 3 fis Medi.

Croeso'n ôl i Anti Mai i'r gegin. Gobeithio eich bod wedi gwella yn iawn.

GALA NOFIO. Llongyfarchiadau i'r tîm fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Daethant yn ail yng nghategori ysgolion mawr y cylch.

Dymunwn wyliau haf braf a diogel i bob un ohonoch.

 **Cig Bethel** 

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN

★
PORC LLEOL

★
**GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
ARBENNIG AM WYN LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

**GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU ...**

**RHOSTIO
MOCHYN** 
AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol ★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Gyda saws afal a stwffin ★ Efo salad hefyd os
mewn rholiau dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188**

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Bu prysurdeb mawr yn yr ysgol yn ddiweddar. Cynhaliwyd diwrnod di-wisg ysgol, gan ganiatau i'r plant wisgo eu dillad eu hunain wedi talu dirwy. Trwy hyn casglwyd £60.00 i gronfa'r ysgol. Gyda chymorth y Cyfeillion, trefnwyd i'r plant gael eu noddi am liwio llun gydag agwedd fathemategol iddo. Diolch yn arbennig i Mrs Gwen Griffiths am ei chymorth a'i gwaith caled gyda'r gweithgareddau.

Mae'r Cyfeillion wrthi'n trefnu Ffair Haf ar gyfer nos lau, Mehefin 29 gyda'r elw i'w ddefnyddio tuag at fudd yr ysgol. Mae croeso mawr i chwi droi i mewn i fwynhau'r gweithgareddau yn y neuadd gymunedol.

Fe fydd ein taith addysgol eleni yn mynd a ni i Barc Knowsley. Pe bai'r tywydd yn ffafril fe fydd plant Bl.6 yn ymweld ag Ynys Enlli am ddiwrnod i wneud gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Mawr obeithiwn y bydd y tywydd yn caniatáu i'r daith fynd yn ei blaen.

Llongyferchir plant Bl.6 am weithio mor galed yn ystod y profion diweddar ac am gael canlyniadau mor dda.

URDD ADARAN BENTREF. Cynhaliwyd Mabolgampau'r Cylch nos lau, Mehefin 15 a daeth llwyddiant i'r Adran. Llongyfarchiadau i Dylan Eddie ar gael cyntaf ar Redeg dan 12 oed a phob dymuniad da iddo ym Mabolgampau'r Sir ar Gaeau Treborth ar Fehefin 26. Cafodd drydydd hefyd ar y Naid Hir. Da iawn Caryl, hithau wedi cael trydydd ar Redeg dan 12 oed. Llongyfarchiadau i weddill yr Adran hefyd am gymryd rhan a chael mwynhad. Diolch i'r rhai fu'n cefnogi a chludo'r aelodau i Gaernarfon.

CLWB CINIO NADOLIG. Cynhelir noson Bingo yn y Neuadd Gymuned ar Orffennaf 13 am 6.30 o'r gloch — elw'r noson tuag at Ginio Nadolig yr Henoed. Croeso cynnes i bawb.

TRIP NADOLIG. Rhagfyr 9fed, trefnir trip i Lerpwl gan aros noson mewn gwesty. Os oes diddordeb gennych yna rhowch eich enw i Jean Jones, (Ffôn: 871993).

CYDYMDEIMLAD. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Nansi Williams, 15 Bryn Tirion ar golli ei hewythr, Hefin Hughes a oedd mewn gofal yng Nghartref yr Henoed, Penisarwaun.

Ein cydymdeimlad llwyr af hefyd â Mr Paul, perchennog Cartref yr Henoed. Yntau wedi colli ei dad yn Pakistan.

GWELLHAD. Da deall fod Mr Dafydd Roberts, 10 Bryntirion wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Cofion annwyl hefyd at bawb sy'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella i gyd.

DIOLCH. Dymuna Fiona a Mark ddiolch i'r ddau deulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar enedigaeth lanto Llwyd.

TRIP YR YSGOLION SUL. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o Groesffordd King am 7.30 bore Sadwrn, Gorffennaf 8fed. Arian yn ddiymdroi i Elizabeth Jones ac Ann Paterson os gwelwch yn dda. Gobeithio y bydd yr haul yn gwenu.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bnawn Sul, Mehefin 25 bu'r plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth y Gymdeithas Feibla yn Eglwys Llandinorwig, Deiniolen. Da iawn chi, blant am wneud eich gwaith mor raenus.

GWASANAETH TEULUOL. Gorffennaf 2il am 10.30 y bore. Fel *Oedfa'r Teulu*, bydd y plant a'r ieuenctid yn mynd i Gapel Jeriwsalem, Bethesda i ymuno â nifer o Ysgolion Sul eraill i fwynhau 'Gwsanaeth Arbennig i ddatlu'r Mileniwm' yng nghwmni'r Parch Huw John Huws a Manon Llwyd. Mae croeso arbennig i'r rhieni neu unrhyw un arall ymuno. Bydd bws yn cychwyn o Lanberis am 9.45, ym Mhenisarwaun am 9.55 ac yna yn Neiniolen am 10.00. Pris: Oedolion £1, plant 50c.

DARLLEN NODDEDIG. Gobeithir trefnu Darllen Nodedig o'r Beibl neu unrhyw hoff lyfr crefyddol, er budd addysg y ferch fach fabwysiedig Katalan Singaro o Kenya. Mae angen codi £120.00 ar gyfer ei haddysg. Byddwn yn ymuno ag Ysgol Sul Undebol Ebenezer. Ceir manylion pellach yn y rhifyn wedi gwyliau'r haf.



Aelodau Ysgol Sul Santes Helen yn derbyn Cwpan Coffa Lowri Pritchard am yr ail flwyddyn yn olynol yng Ngŵyl Gorawl Eryri.

PWYLLGOR Y NEUADD BENTREF. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a'r enillwyr oedd: 1. Elen Lewis, Penpwlloch; 2. Lizzie Evans, Meirionfa, Pen-y-groes; 3. Aled Green.

Y mae'r aelodau yn brysur yn gwerthu raffl a diolchir i chwi oll am eich cefnogaeth. Tynnir y raffl mewn Noson Daith Gerdded a gynhelir nos Wener, Medi 8fed i gychwyn o'r Neuadd Gymuned am 6.00 o'r gloch yr hwyr. Leslie Larsen sydd yng ngofal y daith. Bydd paned arbennig yn barod erbyn dychwelyd — paned yng ngofal Myrddin a Dafydd! Felly chwi rieni a phlant a ffrindiau dowch i grwydro a chadw'r llwybrau ar agor.

OCSIWN ADDEWIDION. Cynhelir Ocsiwn nos Wener, Tachwedd 17 yn y Neuadd Gymuned. Os dymuna unrhyw un gyfrannu mewn unrhyw fodd, cysyllter ag aelodau Pwyllgor y Neuadd neu'r Ysgrifennydd, Ann Ifans (872407).

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor y Neuadd nos Fawrth, Medi 5 am 6.30 o'r gloch yn y neuadd.

EGLWYS SANTES HELEN. **DYDD GWEDDI A RHODD.** Fe gynhelir y Dydd Rhodd ar ddydd Sul, Gorffennaf 30. Am 10.30 y bore bydd Cymun Bendigaid a Gosber am 5 o'r gloch gyda'r pregethwr gwadd y Parchedig Ganon Geraint Wyn Edwards, Bae Cemais. Fe fydd lluniaeth ysgafn ar gael yn Neuadd yr Eglwys am 4 o'r gloch pan fydd ein gefail, Plwyf Cemais yn ymuno â ni am de a'r Gosber. Croeso cynnes i bawb.

GWYL GORAWL ERYRI. Bnawn Sul, Mehefin 11 fe gynhaliwyd yr Wyl Gorawl yn Eglwys St. Helen. Yn ystod y gwasanaeth fe gyflwynodd yr Archddiacon, yr Hybarch Alun Hawkins dlws bychan wedi ei wneud allan o lechen i bob un o'r plant er mwyn dathlu'r Mileniwm.

Rydym yn llongyfarch aelodau Ysgol Sul St Helen a'r athrawon am eu gwaith da ac am ennill Cwpan Coffa Lowri Pritchard am

yr ail flwyddyn yn olynol. Da iawn chi a daliwch ati.

PERERINDOD DEONIAETH ARFON. Bnawn Sul, Mehefin 18 ymunodd rhai o aelodau'r Eglwys efo gweddill eglwysi y Ddeoniaeth i fynd ar bererindod yn cychwyn o Ddolbenmaen hyd at Gapel Nazareth y tu draw i fast Nebo. Trefnwyd ac arweiniwyd y daith gan y Parch Tegid Roberts. Bu'r trywydd yn eithriadol o braf ac ar ôl cyrraedd cawsom wasanaeth yn ngardd y capel a thraddododd Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Saunders Davies y Fendith.

WYTHNOS O WEITHGAREDD. Dyma restr o'r gweithgareddau sydd i'w cynnal o Awst 28 hyd at Fedi 3.

Nos Lun, Awst 28 am 7.30: Bingo yn Neuadd yr Eglwys.

Nos Fawrth, Awst 29: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 o'r gloch.

Nos Fercher, Awst 30: 6-7.30 o'r gloch: Disgo i'r plant yn Neuadd yr Eglwys. 8 o'r gloch: Dawnsio Llinell i bob oedran.

Dydd lau, Awst 31: Gŵyl Flodau gydag Arddangosfa o'r pentref ac arddangosfa grefftau wedi eu gwneud gan rai o'r pentrefwyr. Fe fydd yna wasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 10.30 y bore i agor yr Wyl, ac ymlaen yn ddyddiol trwy'r wythnos. Am 6 o'r gloch cynhelir Mabolgampau ar gae'r ysgol.

Dydd Gwener, Medi 1: Helfa Drysor yn dechrau o 6.30 hyd 7.00 o'r gloch o Neuadd yr Eglwys ac yn diweddu mewn gwesty gyda phryd o fwyd.

Dydd Sadwrn, Medi 2: Y Carnifal a Sêl Cist Car gydag amryw o weithgareddau a stondinau ar gae'r ysgol. Yr orymdaith i gychwyn o'r Cartref Nyrsio am 2 o'r gloch gyda Seindorf Arian Deiniolen yn arwain. Fe fydd Seindorf Arian leuenctid Llanberis yn perfformio ar y cae.

Dydd Sul, Mehefin 3: Cymanfa Ganu yn Eglwys St Helen am 7 o'r gloch gydag eitemau gan Gôr Lleisiau'r Gweunydd. Bydd manylion pellach i'w cyhoeddi eto.

EMYR JONES
PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
Caernarfon 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Cymeriadau Plentyndod

(parhad o dudalen 10)

Elin Winni: Gresyn na fyddai gwagedd parchus, rhinweddol yn amgenach cymeriadau. Mae cymeriad lliwgar, rhywsut, yn goresgyn safonau derbyniol cymdeithas ac am hynny yn fwy amlwg. Mi wn fod aml i berson a dreuliodd yrfa ddilychwin yn batrwm i gymdeithas ond, nid y rheiny sy'n apelio rhywsut, a byr fydd y cof amdanynt.

Gwraig amlwg, fel unig ferch y Post, oedd Elin Winni, priod D.M. Prichard, y postfeistr. Er ei magu ar aelwyd grefyddol, ei thaid, John Williams oedd gweinidog cyntaf Capel y Rhos, ni ddilynodd y llwybr union a ddisgwyblid ganddi. Roedd ei hymarweddiad fel arian byw ac ni chollai ddim a ddigwyddai yn lleol, pe byddai yn sobr. Diodydd poethion, chwedl Ifas y Tryc, oedd ei gwendid, fe'i cydnabyddid heddiw fel alci, ond mynnai fod o gwmpas cownter y post er y gwaherddid iddi drin dim o'r busnes, gan iddi droseddu rhywdro a thalu yn hallt amdano. Efallai mai ei phrofiadau dyrys a'i gyrrai i geisio solas yn ei gwirod.

Pan fyddai ynghylch ei phethau, gallai fod yn ddoniol iawn ei sylwadau ar y byd a'r betws. Byddai wrth law weithiau i ddosbarthu'r llythyrau efo'r postmyn am hanner awr wedi saith y bore ac yn herio a bygwth rhai ohonynt i afael ynddi. Ar wahân i Dafydd Haydn, postmyn rhan-amser a gyflogid i rannu llythyrau y bore am rhyw chweugain (50c) yr wythnos, i ymestyn pensiwn neu gyflog isel.

Byddai yn ffeind iawn wrth blant am redeg neges iddi a chefais aml i chwechyn am nôl bwyd ieir i siop Gryffis dros y ffordd. Cadwai rhyw ddwy hwyaden yn yr ardd a dau ddaeargi bach yn y gegin gefn, fel creaduriaid anwes. Siaradai wrthynt fel rhyw blentyn. 'Waif' oedd un a Jac oedd y llall, ac roedd ei thynwch wrth eu trafod yn adrodd cyfrolau am ei chymeriad. 'Waif bach amddifad,' meddai 'a'i dad o wedi dengid i'r Melica.'

Câi ei chyflenwad gwirod yn ddirgel, dan gochl neges o ryw fan, gan hen feddwyn wrth law a threuliai wythnosau bwygilydd ar ei sbri yn ystafell ucha'r tŷ, heb ddod i olwg neb. Heneiddiodd yn fuan iawn, yn ei phumdegau, a bu farw o strôc cyn cyrraedd ei thrigain oed.

Malan Jones: y Fydwraig: Ymhell cyn dyddiau y Wladwriaeth Les, gofelid am famau beichiog yn awr eu tymp gan hen wreigan annwyl, gydag oes o brofiad o eni a magu plant. Roedd wrth law bob amser ar adeg esgor pan alwai y Dr John

Roberts, Llanberis am ei gwasanaeth.

Gwraig enedigol o Lŷn oedd, ond a ymgartrefodd yn yr ardal ar ôl ei phriodas. Magodd deulu niferus ei hun, a hynny mewn bwthyn bach wrth ben lôn gefn Bryngwyn. Er iddi symud i'r Groeslon Newydd, Malan Penlon fyddai i bawb. Roedd yn chwaer i daid y Dr Kate Roberts a sonnir amdani yn 'Y Lôn Wen' yn angladd ei brawd, taid y llenor. Roedd yn nain hefyd i J.J. Williams MA, Birkenhead, y dramodydd a'r addysgwr.

Mae iddi lu o ddisgynyddion yn yr ardal o hyd a sonnir am y plant a dderbyniodd i'r byd fel 'cywion Malan'. Hi hefyd a hwyliai y meirw ar eu holaf daith.

Yn ystod y dauddegau synnid at ei hir hoedledd a gwelid ei hanes yn yr Herald Cymraeg. Bwyta digon o datws a llaeth fyddai ei chynghor ac ambell i nionyn picl i roi blas. Synnem ni blant o glywed hynny gan nad oedd gan yr hen wraig ond un dant yn ei phen. Bu fyw hyd 1927 a hithau yn 97 mlwydd oed, wedi oes o gyni a chaledi, heb gwyno. Cofir amdani gydag anwyldeb gan hen drigolion yr ardal.

* * *

Tomos Morus, y Plisman: Palat o ddyn mawr, llydan oedd Morus y plisman, a'i nerth yn ei freichiau a'i ddynau. Roedd yn gredwr cryf mewn gweithredu cosb yn y fan a'r lle, gan nad oedd yn ddyn papur a phensel.

Plwyf Llanrug oedd ei diriogaeth, er mai yng Nghwm-y-glo yr oedd ei orsaf. Roedd natur atal dweud arno ac yn cyffroi pe bai rhywun yn manteisio ar hynny. Daliodd rhywun heb olau coch ar ei feic a hwnnw hefyd â'r un nam arno, yn baglu a bygylu wrth wneud esgus. 'Yli llanc,' meddai Morus, 'paid ti a 'ngwatwar i, neu cefn llaw gei di.'

Dro arall wrth nodi manylion cerbyd a drawodd bolyn teligriff nes oedd y dŵr yn pistyllio o'i ryddiadur, 'Radiator, radiator. Sut wyt ti'n sbelio fo?' meddai wrth ddau ohonom, 'Ydach chi'n hogia Cownti Sgwyl,' a ninnau am y gorau yn ei swcro. Byddai sôn amdano tua thre Caernarfon ar nos Sadwrn, a'i glog dros ei ygwydd yn gwastrodi llanciau afreolus efo cic a pheltan. Mae chwith am ei fath yn yr oes sydd ohoni, ond dyna bris taladwy am 'gyfraith a threfn' onidê?

Cyfarfod Blynyddol yr Eco

Festri Capel y Rhos
Llanrug am 7.30pm
nos Fawrth
Gorffennaf 11

Sadwrn Gorffennaf 22

Bydd

BBC

RADIO CYMRU

92 - 105 FM

yn darlledu'n FYW

o

Ras yr Wyddfa

1:40-5.00

Grwpiau • Gwobrau

Cystadlaethau

Cerddoriaeth

Herods Nia

ac fe fydd

DAFYDD DU

yn rhedeg y Ras



Llythyr o'r America

Bath,
Brown Co,
Dak.Ter.
Oct. 24th 1885

Anwyl Frawd,

Ymaflaf yn fy ysgrifbin unwaith yn rhagor i'th anerch o'r wlad fawr Dakota yma (Eden y Gorllewin) ar ol bod am amser pur faith heb anfon yna.

Derbynniais 3 lythyr oddiyna yr wythnos ddiweddaff, un oddiwrthyt ti, Janet a Thomas. Yn un Thomas yr oedd chec am fy arian wedi dod yn *safe* ac yn awr y mae dan fy ngofal. Ni raid i mi fyned ond 4 milldir i gael ei newid. Yr wyf yn wir ddiolchgar i chwi am eich prydlondeb yn ei h'anfon achos nis gwn pa mor fuan y bydd arnaf eu h'angen bellach, ac yr oedd yn dda gennyf ddeall pe buasai arnaf angen am ychwaneg na fyddai ddim yn anhawdd iawn i mi eu cael oddiyna, os gwnaf brynu *claim* yma am dros \$400. Y mae yn ddiamheu gennyf mai ceisio am ychydig oddiyna a wnaaf achos buasai yn rhatach i mi o lawer na chyfodi arian yma. Buasai yn rhaid i mi dalu tua \$10 i cant yma pryd y cawswm mae yn ddiamheu oddiyna am rhyw \$4 neu \$5 y cant, ond caf siarad am hyn etto yng nghorff y gauaf nesaf gyda thi. Mae yn debyg

mae mynd i Wisconsin a wnaaf am y gauaf achos caf fy mwyd am ddim yno ac ni chostith hi ddim ond \$20 am *thousand mile ticket*, yr hyn fydd yn agos iawn ddigon i fyned yn ol a blaen yno.

Yr wyf am fyned at Ipswich ymhen y dair wythnos etto i chwilio am *claim* achos rhaid i mi brynu yno. Caf yn rhatach o lawer iawn yno nag yma, achos y mae yno le mwy newydd o tua 2 flynedd, ac y mae yno fwy o Gymry nag sydd y ffordd yma. Buaswn yn cael tir llywodraeth dipyn ymhell oddiwrth y railroad, ond ni fuasai o ddim gwerth i mi ymhell o'r farchnad, heblaw yr anghysur o fyw o gyrraedd y byd mewn rhyw ystyr. Rwy'n disgwyl y caf hamdden yng nghorff yr wythnos nesaf i anfon gair etto i rai ohonoch, achos rwy'n disgwyl i un fod rhwng y lliaws o honoch, yn hwnw cewch fwy o hanes y wlad a fy marn amdani.

Rwy'n disgwyl am dryth o hanes Llanberis yn y 'Drych' gan R.R. Williams pan ddaw yn ol, ac y mae ar y mor bellach, onid yw? Rwy'n sicr fod yn anhawdd iawn ganddo adael yr hen ardal. Yr wyf am anfon atto am eich hanes y munud y clywaf ei fod wedi cyrraedd gartref, ac ni fydd hynny yn hir iawn mi goeliaf.

Cefais ddarluniau o honoch fel *specimen* o chwarelwyr ychydig yn ol. Yn wir y maent yn dda. Anfonaf air i E. Williams yr wythnos nesaf, ynghyd a fy meirniadaeth am danynt. Cofiwch am basio heibio i mi os y byddaf yn drwm, achos y mae yn anhawdd iawn gwybod beth y mae yn ei ysgrifennu yng nghanol mwg cigarod.

Terfynaf,

Ydwyf dy frawd, Owen.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Gwraig Tŷ yn yr Ardd

Rwy'n ysgrifennu hyn o stori am yr ardd ar y dydd hwyaf. Nid Gorffennaf ddylai'r enw fod ar y mis ond 'Canol Haf'. Dyma'r amser mae'r ardd ar ei gorau, ond i rai sy'n garddio â'u calon fel y dywedodd rhywun ar y radio y bore 'ma, mae pob mis yn hyfryd yn yr ardd.

Wel, sut olwg sydd ar y llecyn yma erbyn hyn? Mae'r planhigion a blannwyd ddiwedd Mai yn dangos eu lliw yn y potiau. Dwi wedi gwirioni ar arddio potiau. Mi roddais hen dysen wedi egino yn y pot o gompost gan obeithio y cawn datws newydd fel rhai o'r ardd. Mae'n rhaid cael ffydd i arddio.

Un peth arall wyf wedi ei wneud yw torri rhes o 'gonifers' oedd yn rhoi cysgod dros bopeth, a'r hydrangea (tri lliw ar ddeg) yn pwdu'n arw gan ddiffyg haul.

Rwy'n cofio stori ddywedodd I.B. Griffith amdano yn teithio efo Bob Owen Croesor i lawr i Gaerdydd yn y car. Gwledd oedd mynd trwy'r pentrefi efo Bob Owen ac yntau yn siarad amdanynt ac yn gwybod eu hanes, ond bob hyn a hyn yn mellthithio conifers ar hyd ochor y ffyrdd. Ond nid am hynny yr oeddwn i'n cwyno ond am fy mlodau, a'r difrod a wnant i eiddo eraill a thywyllu pob man. Felly i lawr â nhw.

Ar wahan i'r blodau mae yna gwsberis a rhyfon duon (cyraints) rhwng y Pasg a'r Sulgwyn. Does dim gwell na jam cyraints duon a mel pan fyddwch wedi cael anwyd yn y gaeaf, cystal â Ribena bob dydd. Mae 'Ffŵl Gwsberis' yn hyfryd iawn hefyd a theisen, wrth gwrs, yn flasus dros ben.

Cynhwysion ar gyfer y jam

Pwys o gwsberis
Pwys o siwgr
½ pint o ddŵr
Sudd oren

Mae'r ardd yn werthfawr iawn i wraig y tŷ heblaw am y bwyd da a gynhyrchir ond i'r pwrs hefyd. Mae bwyd cartref yn llawer gwell. Gadewch i'r gŵr dorchi ei lewys a mynd ati yn hytrach nag edrych ar y ffwtbol ar y bocs.

Hwyl.

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**

**BANGOR
(01248)
354646**

**CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref**

**E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.**

**57 Glanffynnon
LLANRUG**

**Ffon:
(01286) 675754**

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

**London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

**GWERTHU
- TRWSIO**

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



Sefydlwyd
1980

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau, 15 o Fehefin yn 'Angorfa' gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair. Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghorydd Danny Roberts, a bydd y Cyngor bellach yn rhoi rhybudd o ddwy sedd wag ar Ward Padarn o'r Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Ken Jones ar gyfarfod yng Nghaernarfon gyda Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd i drafod Cynllun Trafnidiaeth Lleol Gwynedd. Yn dilyn gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd i gynnal arolwg o gysgodfannau bws yn yr ardal yn ystod y flwyddyn, gohiriwyd penderfyniad ar gysgodfan bws Maes Padarn nes bydd yr arolwg wedi ei gwblhau.

Derbyniwyd ymateb llawn o'r diwedd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn ymateb i faterion yn ymwneud â thrafferthion ar y Stryd Fawr yn Llanberis.

Bydd llythyr yn cael ei anfon i Dafydd Wigley A.C., ynglŷn â diffyg dogfennau Cymraeg a'r defnydd anghywir o'r Gymraeg ar lythyrau a dderbyniwyd o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cafwyd adroddiad gan y Clerc yn datgan fod cais wedi ei wneud am gymoth ariannol i Gist Gwynedd tuag at adeiladu grid anifeiliaid yn Ffordd Clegir. Gwnaethpwyd hyn gyda chydweithrediad y Cynghorydd Sir, Trefor Edwards. Penderfynodd y Cyngor ohirio hyd y cyfarfod nesaf, benderfyniad ynglŷn â chynyddu eu grant tuag at y prosiect. Yn y cyfamser mae'r Cyngor yn cysylltu â'r Heddlu i bwyso arnynt i erlyn ffermwyr sy'n caniatáu i'w defaid grwydro i'r pentref, gan achosi difrod i erddi a chreu posibilrwydd o ddamweiniau ar y ffordd.

Cafodd tri chais cynllunio eu cysidro, ac nid oedd gwrthwynebiad i newid defnydd hen adeilad i greu stiwdio a gweithdy gerllaw Tyddyn Charles; i baratoi mynediad i'r anabl yn Gerafon, Stryd Fawr, ac i newid defnydd sgubor yn lletydros-nos i gerddwyr yn Fron Rhedyn, Nantperis.

Trafodwyd a ffurfiwyd rheolau y fynwent yn Nantperis ond ni cheir penderfyniad terfynol arnynt hyd y cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd adroddiadau fod y llwybr cyhoeddus o Ty'n Llan i'r cae chwarae yn Nantperis i'w drwsio. Cafwyd gwybodaeth hefyd fod aelod o'r cyhoedd yn paratoi adroddiad ar gyflwr llwybrau cyhoeddus y plwyf, a bydd yr adroddiad yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Bydd sgipiau cymunedol yn cael eu gosod mewn gwahanol fannau yn Llanberis a Nantperis ar Awst 8. Yn ystod mis Awst hefyd, bydd y biniau ail-gylchu yn cael eu symud o'r maes parcio ger y llyn ac yn cael eu hail-leoli yn y maes parcio ar Ffordd Glan Bala, islaw Castell Dolbadarn.

Croesawyd y ffaith fod rheoliadau traffig newydd yn dod i rym yn y pentref. Byddant yn cynnwys ymestyn y gwaharddiad cyflymder 40mya i dai Glyn Rhonwy, a gwahardd parcio ar ochr y ffordd rhwng y Feddygfa a'r gyffordd â'r ffordd fawr. Penderfynwyd gofyn i Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd beintio arwyddion 30mya o fewn bocsus coch ar y briffordd yn Nantperis a chroesawyd yr addewid amodol i osod mwy o strbedi chwynu ar y ffordd yn Nantperis hefyd.

Bydd y Cynghorwyr Dei Tomos, Ken Jones a Derek Jones yn cynrychioli'r Cyngor yn agoriad swyddogol y Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn Llyfrgell Llanberis ar Fehefin 30.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' ar nos Iau, 20 Gorffennaf.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Rhagor o Newyddion WAUNFAWR

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Manon Jones, 11 Tref Eilian ar ei dyweddïad gyda Alun Lewis o Rhosgadfan. Dymuniadau ograui i chi eich dau i'r dyfodol.

YR URDD. Daeth Rhydian Jones yn fuddugol yn y gystadleuaeth Taflu Pêl dan 10 oed a'r tîm genethod yn fuddugol yn y Ras Gyfnewid dan 12 oed ym Mabolgampau Cylch yr Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen. Llongyfarchiadau a phob lwc pan fyddwch yn cynrychioli Cylch Arfon ym Mabolgampau'r Sir ar gaeau Treborth nos Lun, Mehefin 26.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Dylan Jones, 11 Tref Eilian a fu'n dathlu cyrraedd ei 21 oed yn ystod y mis. Dymuniadau gorau i'r dyfodol, Dylan.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

SWYDD NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Huw Emyr Williams, Pant Hyfryd ar ei benodiad i swydd Dirprwy-brifathro Ysgol y Creuddyn, Llandudno. Pob hwyl yn y swydd newydd.

TENIS. Llongyfarchiadau i Nia Fflur Jones, Glasfryn ar gyrraedd y rownd derfynol mewn cystadleuaeth tenis Gogledd Cymru o dan 9 oed. Da iawn ti.

Hefyd i Elgan Llwyd Larsen am gynrychioli Gogledd Cymru yn Birmingham yn ddiweddar.

DYMUNIADAU gorau i holl blant yr ardal fydd yn symud ysgol neu'n mynd i'r Coleg ym mis Medi.



STRYD FAWR LLANBERIS

21 Hydref-
11 Tachwedd

**Eisteddfod y Wladfa, Patagonia ac
ymweld â llefydd o ddiddordeb
hanesyddol yng nghwmni Penri Jones
(awdur 'Jabas').** Dim ond lle i 4 ar ôl.

Manylion pellach am ein holl deithiau
(01286) 872777

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU
- * Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.

**bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y ty yn lleol**

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937




**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

CROESAIR GORFFENNAF



ENW.....

CYFEIRIAD.....

..... CÔD POST

Mae 1, 3, 26, 37, 39 ar draws a 7 a 10 i lawr yn perthyn i'w gilydd. 'Dydyn nhw ddim yn rhai drwg chwaith!

Ar Draws

6. Dod yn nes (6)
11. Y rhai sy'n nawddogi (6)
12. Gwendid ym mhen ambell un (3)
13. Anifail bychan tebyg i wenci (6)
14. Ffrwydriadau o losgfynydd (10)
15. Carreg galed o Drefor (6)
16. Pendefigion (8)
18. Arwyddeiriau (8)
20. ... canys eiddo y cyfryw --- yw teyrnas Dduw (Marc 18,16) (3)
21. Gŵr caled yn brifo (4,4)
23. Afreolus (8)
25. Yr Arglwydd (3)
28. Cri y Glas yn waedd uchel ... (8)
30. ... a bloeddio'n uchel eto (6)
31. Rheoli yn anghywir (10)
34. Profi blas y diod (6)
35. Mur (3)
36. Offeryn i gadw bwydydd yn iach (6)
38. Dail poethion (5)

I Lawr

1. Math o gap (5)
2. Yr -----, tref yng Ngogledd Cymru (7)
4. Ni chaiff un eneth guddio cadach! (5)
5. Bwndeli o 480 darn o bapur (5)
8. Rhai yn dechrau mudiad (9)
9. Mannau ar un lle? (5)
16. Metel llwydwyn meddal (5)
17. Cig ffres (5)
18. Morgi (5)
19. Dros y cyfnod tywyll (5)
22. Yn yr ardd ers talwm iawn? (3,3,3)

24. Llawysgrif (8)
27. Talu'r pwyth yn ôl (7)
29. Ysgol (7)
30. Anrheg mewn bocs gwag o sebon (5)
31. Haid neu dorf afreolus a stwrllyd (5)
32. Lliw aur (5)
33. Monocromatig (5)

ATEBION MEHEFIN

Derbyniais atebion i groesair Mehefin gan Rhiannon Pritchard-Jonbes, Clynnog. Nan Owen, Llanberis; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; Rosemary Williams, Tregarth; E. Eirwen Roberts, Tregarth; Jennie Williams, Clynnog; Gwen Davies, Neston; Ceinwen Williams, Bethel; Ceridwen Williams, Llanrug; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; M.P. Jones, Clynnog; Eluned Jones, Trefor; Moreen Lennon, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Olwen Owen, Llanberis; N. Hughes, Cwm-y-glo ac enillydd y mis sef Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda LL57 3RS.

Ar ôl cwblhau croesair Gorffennaf gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Awst 28.

DYDDIADUR GORFFENNAF

- Sul 2:** Cyfarfodydd Dathlu'r Mileniwm: Oedfa'r plant am 10.30 y bore yn Jerusalem, Bethesda; Cymanfa Ganu yn Seilo, Caernarfon am 6 o'r gloch yr hwyr.
- Llun 3:** **DEINIOLEN.** Mabolgampau'r Ysgol.
- Maw 4:** **PENISARWAUN.** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr Ysgol Gymuned am 7.15.
- Gwe 7 - Sad 15:** **LLANBERIS.** Wythnos y Carnifal
- Sad 8:** **WAUNFAWR.** Diwrnod o hwyl a gemau. **PENISARWAUN.** Trip yr Ysgolion Sul.
- Llun 10:** **CWM-Y-GLO.** Mabolgampau'r Ysgol. **YSGOL BRYNREFAIL.** Sioe Gerdd yn yr Ysgol.
- Maw 11:** **YSGOL BRYNREFAIL.** Sioe Gerdd yn yr Ysgol.
- Iau 13:** **PENISARWAUN.** Noson Bingo yn y Neuadd.
- Sad 15:** **LLANBERIS.** Y Carnifal.
- Llun 17:** **BRYNREFAIL.** Sefydliad y Merched.
- Sad 22:** **CWM-Y-GLO.** Te mefus Undeb y Mamau.
- Sad 29:** **CAEATHRO.** Pnawn o atyniadau ar y Cae Chwarae.
- Sul 30:** **PENISARWAUN.** Dydd Rhodd Eglwys Sant Helen.

Rhaghysbys:

Awst 28 - Medi 3: **PENISARWAUN.** Wythnos y Carnifal.

RHODDION



£10: Mrs A. Jones, Eilionwy, Llanrug.

£10.00: Eilir a Catrin, Caernarfon; Eleanor, Bryn Teg, Llanberis.

£5.00: Mr a Mrs Owie Parry a Noel, 13 Hafod Olau, Deiniolen; Miss K. Roberts, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Mr a Mrs O.T. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr.

£2.00: Mrs Elisabeth Pitts, 52 Dôl Elidir, Llanberis.

AM OFFER TŶ A GARD D...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 871833

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043

neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

CEIR ADAM



HURIO PREIFAT YN UNIG

LLEOL NEU HIRBELL

LLANBERIS

871539

CHWARAEON

Tlws yr Eco 2000

Am hanner awr wedi naw — bedair awr wedi'r gic gyntaf — chwythwyd y bib olaf yng nghystadleuaeth gyntaf y milflwydd. Ac am ddechreuad. Yn ddi-os, mae hon yn un o uchafbwyntiau y calendr chwaraeon. Daeth torf sylweddol eto eleni, ac ni chawsant eu siomi. Dyma'r gystadleuaeth orau yn fy marn i. Roedd pob gêm yn gystadluol, ac ymdrech anhygoel gan y plant o bob oed.

Roedd 8 tîm yn oedran blyneddodd 3 a 4. Gyda siorts rhai dros eu fferau, roedd sawl seren i'w weld. Nid maint yw popeth erbyn hyn. Cafwyd pasio llyfn, sy'n glod i'r sawl sy'n hyfforddi y plant yma. Bethel a Llanrug 'A' ddaeth benben â'i gilydd yn y rownd derfynol. Cafwyd gwledd o bêl-droed gyda'r unig gôl yn dod i Lanrug yn y funud olaf o ugain munud gwefreiddiol. Roedd y frwydr rhwng Trystan Dafydd, blaenwr Bethel, a Sion Eifion, gôl-geidwad Llanrug yn anhygoel. Cynigion gwych gan Trystan, arbedion gwych gan Sion. Wedi'r fath gêm, hawdd deall y llu dagrau gan amryw.

Fu 'rioed y fath gyfartaledd rhwng y tîmau yn oedran B1.5 a 6. Doedd yr un gêm hawdd a dim gemau hawdd pan oedd 'A' yn cyfarfod 'B'. Gyda phob tîm yn chwarae 5 gêm, roedd Llanrug wedi llwyddo i gyrraedd y gêm derfynol wedi'r gyfres gynghreiriol. Roedd Deiniolen a Llanberis yn gyfartal ar bwyntiau a goliau. Rhaid oedd cael gêm y 'gôl aur' i ddatrys y sefyllfa, a sgoriodd Llanberis wedi un munud. Yr hen elynion, Llanrug a Llanberis yn wynebu ei gilydd eto. 1-1 wedi chwarter awr caled. Cynnig rhannu'r tlws ond, 'Na,' meddai'r hogiau, 'rhaid cael enillydd.' Un ochrog fu'r ail hanner, gyda Llanberis yn ennill 4-1 yn y diwedd. O ble daeth egni'r ddau dîm yn y gwyll, wn i ddim.

Ar fuarth ysgolion Llanrug a Bethel y bu'r ymgiprys am dlysau pêl-rwyd yr Eco. Yma eto cafwyd gemau o safon, gyda'r ddau dlws i'r gwahanol oeddrannau yn mynd i Lanrug.

Gyda blinder, ond llwyr foddhad, yr wyf yn ysgrifennu'r golofn hon, hanner awr wedi'r gic olaf. Boddhad o safon y chwarae, boddhad o'r ymddygiad, a boddhad fod yna o hyd bobl ym mro'r Eco yn barod i roi eu hamser i hyfforddi'r plant yma. Yn sicr, mae defnydd crai yma ar gyfer y dyfodol. A fydd dybiau yn yr ardal iddynt sy'n fater arall!

Diolch i'r llu o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu at lwyddiant y noson. Diolch i brifathro a staff yr ysgolion am eu cydweithrediad a'u croeso parod. A diolch i chwi rieni am eich cefnogaeth. Ond y diolch mwyaf, wedi'r fath gystadlaethau, i'r plant. Gorffwys rŵan — fe ddaw trydydd wythnos mis Mehefin y flwyddyn nesaf yn gyflym iawn.

Lluniau yn y rhifyn nesaf.

Tenis

Anaml iawn y gwelir plant yn cicio pêl neu chwarae criced ar y stryd heddiw — neu hyd yn oed ar gae chwarae. Oes y gwyliwr yw hi erbyn hyn. Nid felly ar y stad acw. Mae sŵn pêl yn gyffredin, ac yn enwedig sŵn pêl denis. Gyda Wimbledon wedi cychwyn, braf yw rhoi sylw i'r gamp a sylwi cymaint o ddylanwad mae Canolfan Tennis Arfon wedi ei gael. Un o'r sêr 'ifanc' yw Ian Jones o Fethel. Cafodd dymor anhygoel a diolch iddo am yr erthygl ganlynol. Diolch i'r criw ifanc sy' mor barod erbyn hyn i gyfrannu erthyglau.



Ian Jones.

Rwyf wedi cael 6 mis cofiadwy iawn yn fy ngyrfa fel chwaraewr tenis. Adeg y Nadolig enillais gystadleuaeth agored Arfon i blant o dan 10 oed. Ym mis Chwefror chwaraeis yng nghystadleuaeth dan 12 oed Tennis Cymru yng Nghaernarfon a chyrraedd rownd derfynol y plât. Roedd cystadleuaeth arall Tennis Cymru



Cricedwyr ifanc o'r fro sy'n chwarae criced i dimau ieuenctid Clwb Bangor.

Dros y blyneddodd diwethaf bu Clwb yr Efail a gynhelir dan nawdd Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus iawn. Rhoddodd gyfle i nifer o ieuenctid lleol i flasau sawl camp wahanol a hefyd i dderbyn hyfforddiant. Un o'r campau sy'n dechrau dwyn ffrwyth yw criced. Gyda dyfodiad Cynghrair Criced Eryri i dimau -11, -13 a -15 mae

cyfle am ddilyniant i'r rhai a gafodd gyflwyniad i'r gêm yn 7 oed. Yn y llun gwelir y criw o fro Eco'r Wyddfa sydd, erbyn hyn, yn aelodau o dimau ieuenctid Clwb Bangor. Gyda hwy yn y llun mae Kerry Walmsley, chwaraewr tramor y clwb eleni. Un o Auckland, Seland Newydd yw Kerry, sydd wedi chwarae dwy gêm brawf i'w wlad yn erbyn Sri Lanka.

yn Wrecsam i blant dan 10 oed ym mis Mawrth lle cyrhaeddais y rownd derfynol a cholli i chwaraewr o garfan Rover-Prydain Fawr. Deallais ar ôl y gystadleuaeth yma fy mod wedi cael fy newis i gynrychioli Gogledd Cymru yng nghystadleuaeth ryngwladol yr L.T.A. Rwyf wedi chwarae yn erbyn Ynys Manaw, Sir Gaer, Sir Amwythig, Sir Gaerhirfryn a Sir Stafford. Rwyf yn hyfforddi am bum diwrnod yr

wythnos yng Nghaernarfon o dan hyfforddiant Steve Davies. Yn y garfan hyfforddi mae 3 plentyn arall o ardal yr Eco, sef Elgan Larsen a Tomos Wyn Jones o Geunant a Mari Deiniol o Benisarwaun.

Mae cystadleuaeth Wimbledon ar ddechrau a gobeithiaf y bydd fy hoff chwaraewr, Andre Agassi, yn llwyddiannus.

IAN JONES

Chwaraewyr y Flwyddyn — Llanrug



Iwan Parry yn derbyn tlws Chwaraewr y Flwyddyn gan Kevin Owen ar ran tîm Llanrug United.



Gwion Llwyd oedd Chwaraewr y Flwyddyn a'r sgoriwr uchaf yn nhîm Llanrug Reserves. Derbyniodd y tlysau gan Cabs.

Chwaraewr y Flwyddyn - Llanberis

Ni ddaeth tlws i dîm Llanberis eleni, ond anrhydeddwyd un o'r chwaraewyr. Dewiswyd y cefnwr cryf, Terry Saynor, yn chwaraewr y flwyddyn yng Nghynghrair y Flintlock. Llongyfarchiadau i un sydd o hyd yn rhoddi cant y cant, ac un â'i dylwyth yn rhan annatod o hanes y clwb.

Mwy o Fedalau

Mae Eifion Williams o Lanrug yn parhau â'i lwyddiant ym maes nofio. Yn ystod Mehefin bu'n cystadlu yng nghystadlaethau Unigol Cymdeithas Nofio Amatur gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ar benwythnos y 3/4 ac yna yn Nhrefynnon ar 17/18. Dros y ddau benwythnos fe enillodd 15 medal aur — canlyniadau anhygoel. Yn ogystal â hynny fe dorodd 9 record a chael ei goroni yn 'Victor Laudorum' ar gyfer cystadluwyr o fewn ei grŵp oedran.

Cofiwch anfon hanesion am chwaraeon yr haf i'r Golygydd Chwaraeon